

# ‘Gelli ymddiried ynof i…’

## Pobl ifanc yn mynd ar goll ac sy’n cael, neu mewn perygl o gael, eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol yng Ngogledd Cymru

**Dr Caroline Hughes a Menna Thomas**

Credwch mewn plant
Believe in children
Barnardo’s Cymru

PRIFYSGOL glyndŵr UNIVERSITY

## Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i'r holl gyfranogwyr o asiantaethau statudol a gwirfoddol a gyfrannodd at yr ymchwil hwn.

Hefyd, hoffem ddiolch i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru am eu cefnogaeth wrth hwyluso'r ymchwil.

Yn bennaf, hoffem ddiolch i'r tri pherson ifanc oedd yn barod i siarad â ni am eu profiad o fynd ar goll a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac am y gwasanaeth y bu iddynt ei dderbyn.

Ariannwyd yr ymchwil gan Barnardo's ac fe'i cynhaliwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **5**

**Crynodeb o'r prif ganfyddiadau ac argymhellion** **7**

**Adran Un: Cefndir** **13**

- Dull ymchwilio 13
- Barnardo's a chamfanteisio'n rhywiol ar blant 13
- Polisi yng Nghymru 14
- Themâu allweddol o ymchwil blaenorol 15
- Sut mae gwasanaeth plant ar goll/CSE dan arweiniad yr heddlu yn gweithio 15
- Proffil y bobl ifanc yr effeithir arnynt 16

**Adran Dau: Beth ddywedodd pobl ifanc wrthym** **19**

- Ynglŷn â mynd ar goll 19
- Ynglŷn â'r broses o feithrin perthynas amhriodol 19
- Ynglŷn â beth ddigwyddodd tra'r oeddent ar goll 20
- Ynglŷn â dychwelyd adref 20
- Ynglŷn â'r broses o ddychwelyd adref 21
- Ynglŷn ag atal pobl ifanc rhag mynd ar goll 22
- Ynglŷn â'r profiad o gael cymorth 23

**Adran Tri: Beth ddywedodd Gweithwyr Proffesiynol ac Ymarferwyr wrthym** **25**

- Ynglŷn ag arferion 25
  - Codi ymwybyddiaeth ac atal 25
  - Adnabod CSE ac ymateb iddo 25
  - Gwasanaeth plant ar goll/CSE Gogledd Cymru 28
  - Proses asesu fframwaith asesu'r risg o gamfanteisio rhywiol (SERAF) 30
- Ynglŷn â lleoliadau preswyl preifat yng Ngogledd Cymru 33
- Ynglŷn â gwaith amlasiantaeth 36
  - Cyfarfodydd strategaeth CSE amlasiantaeth a chyfarfodydd strategaeth plant ar goll 36
  - Grwpiau strategol amlasiantaeth plant ar goll/CSE 38

**Cyfeiriadau** **41**

**Atodiad 1: Dyluniad a dulliau ymchwil** **43**

**Atodiad 2: Canfyddiadau holiadur ar-lein** **47**



# Cyflwyniad

I Barnardo's mae camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) wedi bod yn flaenoriaeth strategol, ac yn faes allweddol ar gyfer datblygu arferion am fwy na dau ddegawd. Yng Nghymru, mae Barnardo's Cymru wedi gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ers 2005 er mwyn cefnogi datblygu polisi cydnerth a chanllawiau arferion er mwyn delio â CSE yng Nghymru.

Mae ymchwil sefydledig a thystiolaeth o arferion yn dangos cysylltiad cryf rhwng plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll a'r perygl o wynebu camfanteisio rhywiol.[1] Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae cyfres o erlyniadau proffil uchel mewn perthynas ag achosion o CSE wedi codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â'r drosedd hon. Cafodd rhwydweithiau o droseddwyr a fu'n cam-drin plant a phobl ifanc am nifer o flynyddoedd eu datguddio yn Rotherham, Rochdale, Derby, Sheffield, Manceinion a Rhydychen, gan arwain at gynnydd mewn gweithgaredd ar draws pob sector er mwyn gwella diogelwch ac amharu ar dramgwyddwyr.

Mae'r ymchwil hwn yn amcanu at wella dealltwriaeth o natur y berthynas rhwng mynd ar goll a CSE, a gwella ymatebion i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl. Er bod y mater hwn wedi cael ei ystyried ar lefel y DU, ychydig iawn o ymchwil sydd wedi cael ei wneud yng Nghymru i blant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll a'r berthynas rhwng mynd ar goll a'r risg o ddioddef CSE. Cynhaliwyd yr ymchwil hwn yng Ngogledd Cymru, ond gallai fod yn ddefnyddiol fel sail i arferion ar draws Cymru.

1 Smeaton, E (2003) Running from hate to what you think is love: The relationship between running away and child sexual exploitation. Barnardo's, Barkingside.



# Crynodeb o'r prif ganfyddiadau ac argymhellion

## Canfyddiadau allweddol: pobl ifanc

**Mae pobl ifanc yn mynd ar goll am nifer o resymau:** i ddianc oddi wrth wrthdaro, oherwydd eu bod yn teimlo'n emosiynol ynysig, oherwydd ei fod yn gyffrous, er mwyn treulio amser â phobl ifanc eraill, neu o ganlyniad i berthynas ag oedolyn sy'n eu cam-drin neu'n meithrin perthynas amhriodol â hwy.

**Pan fo pobl ifanc yn mynd ar goll:** maent yn cael trafferth cael gafael ar arian, bwyd a rhywle diogel i aros ynddo, maent yn profi gwrthdaro â phobl ifanc eraill ac maent yn wynebu risg o feithrin perthynas amhriodol, camfanteisio a cham-drin rhywiol.

**Pan fo pobl ifanc yn dychwelyd ar ôl cyfnod o fod ar goll:** maent yn teimlo'n bryderus ynglŷn ag ymateb rhieni, gofalwyr a staff preswyl.

**Mae pobl ifanc yn amharod i ddatgelu gwybodaeth yn dilyn cyfnod o fod ar goll:** maent yn poeni y byddant yn creu helynt i bobl ifanc eraill neu oedolion os byddant yn datgelu ble maent wedi bod a gyda phwy maent wedi bod, maent eisiau gallu dychwelyd yn y dyfodol i'r mannau a/neu at y bobl y maent wedi bod gyda hwy, ac maent yn ofni y bydd tramgwyddwyr yn dial arnynt.

**Yn aml gall pobl ifanc fod yn fwy amharod i ddatgelu gwybodaeth i'r heddlu:** mae gwybodaeth am rôl yr heddlu yn effeithio ar y ffordd y mae rhai pobl ifanc yn ymateb iddynt. Nid yw pobl ifanc bob amser eisiau ysgwyddo'r cyfrifoldeb o roi gwybodaeth yn uniongyrchol i'r heddlu, ac ar brydiau mae'n well ganddynt drosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn i weithwyr proffesiynol eraill.

## Canfyddiadau allweddol: gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr

**Ynglŷn ag arferion**

**Codi ymwybyddiaeth, atal, adnabod ac ymateb i CSE**

- Mae ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef neu gael eu cam-drin drwy CSE, yn ymwybodol iawn o effaith CSE ac mae ganddynt y sgiliau i adnabod plant a phobl ifanc sydd mewn perygl.
- Hefyd, bu gwelliannau amlwg yn y ffyrdd y mae ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol ar draws y sector statudol yn ystyried, deall ac yn ymateb i bobl ifanc gydag 'ymddygiad peryglus' neu bobl ifanc sydd wedi neu sydd yn cael eu cam-drin drwy CSE.
- Mae angen mwy o hyfforddiant ar ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes addysg, iechyd, gwaith ieuenctid a'r system cyfiawnder troseddol.
- Mae yna bryder o hyd am y ffyrdd y caiff meithrin perthynas amhriodol a cham-drin pobl ifanc hŷn ei ystyried a'i ddeall, ac ar brydiau ystyrir bod camdriniaeth yn rhywbeth y mae pobl ifanc hŷn yn ei ddewis.

- Mae rhai ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol yn dal yn teimlo'n rhwystredig ynglŷn â'r her sylweddol o geisio cael plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn cynlluniau diogelwch, ac efallai bod hyn yn awgrymu bod angen mwy o gymorth i ddatblygu sgiliau gweithwyr proffesiynol.
- Mae angen  codi mwy o ymwybyddiaeth o CSE a mwy o wybodaeth a chyngor wedi ei dargedu at blant a phobl ifanc drwy gyfrwng addysg a sefydliadau cymunedol, a mwy o wybodaeth i rieni a gofalwyr, er mwyn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

**Gwasanaeth plant ar goll/CSE heddlu Gogledd Cymru**

- Bu i ymatebwyr gyfeirio at fuddion cael gweithwyr penodedig sydd ag arbenigedd mewn CSE a mynd ar goll.
- Nodwyd buddion cyfweliadau gaiff eu cynnal gan weithwyr Seraf, a rhoddodd gweithwyr Seraf enghreifftiau o ddefnyddio gwybodaeth o'r cyfweliadau fel sail i ymatebion diogelu.
- Mae ymarferwyr yn ystyried bod y rhaglen 12 wythnos yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r rhai yr asesir eu bod yn wynebu risg bychan neu gymedrol o ddioddef CSE, ond mae rhai pobl yn credu bod angen ymateb mwy dwys ar bobl ifanc sy'n wynebu risg sylweddol o gael eu cam-drin drwy CSE.

**Asesiad Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol (SERAF)**

- Yn gyffredinol, ystyrir bod SERAF yn offeryn pwysig ar gyfer hwyluso penderfyniadau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o ddioddef CSE.
- Mae rhai gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr yn credu mai gweithiwr arbenigol neu rywun sydd wedi cwblhau hyfforddiant SERAF yn unig ddylai lenwi ffurflen SERAF. Mae angen mwy o arweiniad ynglŷn â sut i lenwi a phrosesu ffurflen SERAF.

**Ynglŷn â lleoliadau mewn gofal preswyl yng Ngogledd Cymru**

- Yn aml, mae plant a phobl ifanc mewn lleoliadau preswyl sydd wedi dod o du allan i Ogledd Cymru, a nifer ohonynt wedi cael eu lleoli gan awdurdodau yn Lloegr, yn cyrraedd fel achosion o leoli brys ac yn cael eu symud er mwyn sicrhau eu diogelwch yn syth.
- Mae yna bryder sylweddol ynglŷn â diffyg gwybodaeth, asesu a chynllunio lleoli er mwyn cefnogi diogelwch plant o du allan i Ogledd Cymru yn ddigonol mewn lleoliadau preswyl.
- Mae yna bryder am ddiffyg asesu risg mewn perthynas â gosod pobl ifanc sydd eisoes yn destun perthynas amhriodol neu'n cael eu cam-drin mewn lleoliadau preswyl gyda phobl ifanc eraill sy'n agored i niwed.

- Mae yna bryder y gallai symud plant a phobl ifanc i ardal arall er mwyn sicrhau eu diogelwch yn syth fod yn arwain at fwy o risg iddynt fynd ar goll a/neu gael eu cam-drin, heb fod yna becyn o ofal ac ymyrraeth therapiwtig wedi ei drefnu er mwyn lleihau'r risg o ddioddef CSE a chefnogi adferiad.
- Mae yna dystiolaeth bod arferion yn gwella, o ganlyniad i waith amlasiantaeth, a gwell cyfathrebu ac ymgysylltu â darparwyr lleoliadau preswyl. Bu i'r ymatebwyr nodi bod rôl cydlynwyr plant ar goll yr heddlu mewn perthynas â chefnogi'r trefniadau hyn yn allweddol o ran cynnal cynnydd.

**Ynglŷn â chyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth a chyfarfodydd strategaeth plant ar goll**

- Bu i rai gweithwyr proffesiynol gyfeirio at fuddion amlwg cyfarfodydd strategaeth CSE amlasiantaeth, gan adrodd am gynrychiolaeth dda o'r asiantaethau a chanlyniadau clir o ran cyfrifoldebau pob asiantaeth fel rhan o gynllun diogelwch.
- Bu i weithwyr proffesiynol eraill fynegi pryderon am oedi rhwng canfod risg a chynnal cyfarfod strategaeth CSE amlasiantaeth, presenoldeb gwael gan rai asiantaethau a diffyg cynlluniau diogelwch cadarn o ganlyniad i gyfarfodydd amlasiantaeth.
- Mae cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth wedi cynhyrchu gwybodaeth a ddefnyddiwyd i amharu ar dramgwyddwyr a sefydlu trefniadau diogelu ehangach.
- Nodwyd bod cyfarfodydd strategaeth plant ar goll yn ffordd effeithiol o rannu gwybodaeth a datblygu ymatebion diogelu ar y cyd.
- Mae pwysau amser cyfarfodydd strategaeth CSE amlasiantaeth a chyfarfodydd strategaeth plant ar goll yn sylweddol, ac maent yn cynyddu o ganlyniad i fwy o ymwybyddiaeth a mwy o allu i adnabod plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg. Mewn rhai ardaloedd, ymdrinnir â hyn drwy sefydlu paneli CSE sy'n cyfarfod yn rheolaidd.
- Cydnabyddir bod y tri grŵp strategol plant ar goll/CSE amlasiantaeth yn yr ardal yn effeithiol o ran cefnogi rhannu gwybodaeth a chynllunio strategol a gweithredol. Mae rhai gweithwyr proffesiynol yn credu y dylid sefydlu'r grwpiau hyn ar lefel awdurdodau unigol a bu i eraill gyfeirio at yr angen am fwy o gysondeb swyddogaeth ac agenda ar draws y tri grŵp sy'n bodoli.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1:** Dylid datblygu gwybodaeth ac arweiniad ar gyfer rhieni, gofalwyr a staff preswyl ynglŷn â'r ffyrdd gorau o ymateb i blant a phobl ifanc pan fyddant yn dychwelyd yn dilyn cyfnod o fod ar goll.

**Argymhelliad 2:** Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, a ddatblygwyd gyda chymorth pobl ifanc, er mwyn helpu plant a phobl ifanc i gadw'n ddiogel a cheisio help, eisoes ar gael.[2] Dylid ystyried datblygu canllawiau tebyg er mwyn rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc ynglŷn â risgiau mynd ar goll. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am ble i fynd i gael help a chymorth gyda'r pethau sydd efallai'n gwneud iddynt feddwl am fynd ar goll, ac yn ystod cyfnodau pan maent ar goll.

**Argymhelliad 3:** Dylid darparu rhaglenni cydnerth a chynaledig o ymyrraeth uniongyrchol a chymorth therapiwtig i blant a phobl ifanc sy'n wynebu risg sylweddol o ddioddef neu gael eu cam-drin drwy CSE, fel rhan o gynllun gofal a chymorth er mwyn sicrhau eu diogelwch a'u hadferiad.

**Argymhelliad 4:** Dylai addysg ynghylch CSE, cadw'n ddiogel a pherthnasoedd iach fod ar gael ym mhob sefydliad addysgol, fel rhan o raglen atal.

**Argymhelliad 5:** Dylai adnoddau, cyngor a chymorth fod ar gael er mwyn galluogi rhieni a gofalwyr i adnabod risgiau'n well a gwarchod eu plant a phobl ifanc yn well rhag dioddef camdriniaeth drwy CSE.

**Argymhelliad 6:** Dylid cyflwyno mwy o hyfforddiant ar CSE i weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar draws pob sector, yn cynnwys addysg, iechyd, gwaith ieuenctid a'r system cyfiawnder troseddol.

**Argymhelliad 7:** Dylid rhannu canllawiau ar ddefnyddio asesiadau SERAF i bob ymarferydd a gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ac atgyfnerthu'r trefniadau sy'n gysylltiedig â lleoli plant o du allan i Ogledd Cymru gyda darparwyr preswyl yn yr ardal, a hynny ar frys.

**Argymhelliad 9:** Dylai darparwyr preswyl gyfrannu'n uniongyrchol tuag at drefniadau rhannu gwybodaeth amlasiantaeth, grwpiau a systemau diogelu.

**Argymhelliad 10:** Dylid rhannu gwersi a ddysgwyd o ddefnyddio cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth yn effeithiol mewn rhai ardaloedd er mwyn cael dull gweithredu cyson ar draws y rhanbarth, fel bod cyfarfodydd yn arwain at ddulliau da o rannu gwybodaeth a chynlluniau diogelwch cydnerth.

**Argymhelliad 11:** Dylid casglu mwy o dystiolaeth o ddefnyddio paneli CSE i lywio trafodaethau strategol ynghylch a oes lle i ymagwedd o'r fath ar draws y rhanbarth neu beidio.

**Argymhelliad 12:** Dylid ystyried potensial dull cyson o weithredu yn y tri grŵp strategol CSE/plant ar goll presennol.

2 Sexual Exploitation: Sex, Secrets and Lies – Your Guide (2013). Ar gael yn www.barnardos.org.uk/cse_booklet_sex_secrets_and_lies_-_english_version.pdfhttp://www.barnardos.org.uk/cse_booklet_sex_secrets_and_lies_-_english_version.pdf





# Adran Un: Cefndir

## Dull ymchwilio

Defnyddiwyd dull methodoleg gymysg:

- Dadansoddwyd data eilaidd oedd yn cael ei ddal gan y gwasanaeth.
- Cynhaliwyd cyfweliadau wedi'u strwythuro'n rhannol gyda 22 o ymarferwyr a phersonél strategol ar draws Gogledd Cymru o wasanaethau cymdeithasol, byd addysg, yr heddlu, y trydydd sector, cyfiawnder ieuenctid/gwasanaeth prawf a gofal preswyl.
- Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda naw gweithiwr iechyd oedd â chyfrifoldeb am ddiogelu.
- Cynhaliwyd arolwg o 41 o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol o wasanaethau cymdeithasol, byd addysg, iechyd, yr heddlu, y trydydd sector, cyfiawnder ieuenctid a gofal preswyl.
- Cynhaliwyd cyfweliadau wedi'u strwythuro'n rhannol gyda thri pherson ifanc oedd yn wynebu risg o ddioddef CSE neu oedd wedi cael profiad o CSE ac o fynd ar goll yng Ngogledd Cymru. Roedd dau o'r bobl ifanc wedi derbyn cymorth gan ymarferwyr Seraf Barnardo's Cymru fel rhan o wasanaeth plant ar goll heddlu Gogledd Cymru, a derbyniodd un gymorth gan wasanaethau eraill yng Ngogledd Cymru. Roedd dau o'r bobl ifanc yn fenywaidd ac un yn wrywaidd. Roedd pob un rhwng 15 a 18 oed.

Gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion am ddyluniad yr ymchwil, dulliau a materion moesol.

## Barnardo's a CSE

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn un o feysydd blaenoriaethol Barnardo's. Bu i ni sefydlu'r cyntaf o nifer o wasanaethau CSE arbenigol yn Bradford yn 1995 gan gynnal y gwaith ymchwil a'r ymgyrch gyntaf er mwyn gwella ymatebion i'r math hwn o gamdriniaeth.

Yn 2005, gan adeiladu ar ddeng mlynedd o arferion ac ymchwil ar lefel y DU, bu i Barnardo's Cymru gynnal y gwaith ymchwil cyntaf i natur a chyffredinrwydd camfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru. Bu i'r astudiaeth gwmpasu hon ganfod 184 o achosion o blant a phobl ifanc oedd yn wynebu risg o ddioddef CSE.[3]

Rhwng 2006 a 2008, bu i Barnardo's Cymru ddatblygu a pheilota Asesiad Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol (SERAF). Mae'r fframwaith yn cynorthwyo gweithwyr proffesiynol wrth adnabod plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o ddioddef CSE, fel y gellir atal y risg a bod plant a phobl ifanc yn cael eu gwarchod yn well. Bu i'r astudiaeth beilot ganfod 129 o achosion o blant a phobl ifanc oedd yn wynebu risg sylweddol o ddioddef camfanteisio rhywiol, sef 9% o sampl o 1,486 o achosion a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol a thimau troseddwyr ifanc ar draws tri awdurdod lleol.[4]

3 Coles, J (2005) Out of sight, out of mind: Child sexual exploitation. Barnardo's Cymru, Cardiff.

4 Clutton, S and Coles, J (2008) Child Sexual Exploitation in Wales: 3 years on. Barnardo's Cymru, Cardiff.

Sefydlwyd gwasanaeth Seraf Barnardo's Cymru yn 2006 er mwyn darparu cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc oedd yn wynebu risg o ddioddef neu gael eu cam-drin drwy CSE, a darparu hyfforddiant amlasiantaeth a chodi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol.

# Polisi yng Nghymru

Cyhoeddwyd Protocol Cymru Gyfan ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant gan Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn 2008 (adolygwyd yn 2013) ac mae'n gosod cyfeiriad i arferion diogelu mewn perthynas â CSE.[5] Yna cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol yn 2011 ar ddiogelu plant a phobl ifanc rhag camfanteisio rhywiol[6], a ddisodlodd y canllawiau ar gyfer Cymru a Lloegr a fu mewn grym ers 2000. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei ddiffinio ym Mhrotocol Cymru Gyfan a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru:

> 'Camfanteisio'n rhywiol ar blant yw gorfodi neu gymell plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n fath o gam-drin rhywiol sy'n cynnwys cyfnewid tâl o ryw fath, a all gynnwys arian, ffôn symudol neu eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'diogelu' neu serch. Mae cyfuniad o'r ffaith fod person ifanc yn ddiamddiffyn a'r broses baratoi a ddefnyddir gan y tramgwyddwyr yn ei gwneud hi'n anodd i'r person ifanc wybod natur ecsbloetio perthnasoedd ac ni allant roi caniatâd gwybodus.'

Mae Gweithdrefnau Gwarchod Plant Cymru Gyfan hefyd yn cynnwys cyfarwyddyd drwy Brotocol Cymru Gyfan mewn perthynas â phlant ar goll (2011)[7] a Chanllawiau Arferion Cymru Gyfan ar fasnachu plant (2011)[8].

Nid yw camfanteisio'n rhywiol ar blant yn drosedd ynddi ei hun. Fodd bynnag 'gellir dwyn cyhuddiad am ystod o droseddau yn cynnwys: trais (a.1); ymosodiad rhywiol (a.2 a 3); trais a throseddau rhywiol eraill yn erbyn plant o dan 13 oed (a. 5-8); cyfarfod â phlentyn ar ôl meithrin perthynas rywiol amhriodol (a. 15); achosi neu annog puteindra neu bornograffi plant (a. 48) a masnachu plant yn y DU ar gyfer camfanteisio rhywiol (a.59a).'[9] Erbyn hyn mae trosedd masnachu plant, oedd o'r blaen yn rhan o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*, wedi ei chyfuno â throseddau masnachu eraill o dan *Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015*.

5 All Wales Child Protection Procedures Review Group (2008, reviewed 2013) Safeguarding and Promoting the Welfare of Children who are at Risk of Abuse through Sexual Exploitation: All Wales Protocol.

6 Welsh Assembly Government (2011) Safeguarding Children and Young People from Sexual Exploitation – Supplementary guidance to Safeguarding Children: Working Together under The Children Act 2004.

7 All Wales Child Protection Procedures Review Group (2011) All Wales Protocol – Missing Children: Children who run away or go missing from home or care.

8 All Wales Child Protection Procedures Review Group (2011) All Wales Practice Guidance for Safeguarding Children Who May Have Been Trafficked.

9 Report of the Parliamentary inquiry into the effectiveness of legislation for tackling child sexual exploitation and trafficking within the UK (Chaired by Sarah Champion MP) (2014). Barnardo's, Barkingside.

## Themâu allweddol o ymchwil blaenorol

Mae yna gysylltiad cryf rhwng mynd ar goll a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Gall plant a phobl ifanc gael eu targedu gan dramgwyddwyr pan fônt ar goll, gallant fynd ar goll pan fo perthynas amhriodol yn cael ei meithrin ond cyn i unrhyw gamdriniaeth ddigwydd, a gallant fynd ar goll am gyfnodau pryd y bydd camfanteisio a chamdriniaeth yn digwydd.[10] Cyhoeddwyd ymchwil penodol i Gymru ar 'redeg i ffwrdd' yn 2002 yn seiliedig ar arolwg o 1,706 o bobl ifanc rhwng 14 a 16 oed.[11] Roedd yn awgrymu bod yna berthynas rhwng ansefydlogrwydd a niwed y gallai plant fod yn rhedeg oddi wrtho a dioddef niwed yn ystod cyfnodau pan maent ar goll.

Y glasoed yw'r grŵp oedran sydd yn fwyaf tebygol o gael eu riportio eu bod ar goll,[12] a'r glasoed sy'n wynebu'r risg mwyaf o ddioddef camfanteisio rhywiol.[13] Mae'n hysbys ers amser bod plant sy'n derbyn gofal yn wynebu risg uwch o fynd ar goll[14] [15], ac mae gormod o blant sy'n derbyn gofal ymysg y plant a'r bobl ifanc hynny yr asesir eu bod yn wynebu risg sylweddol o ddioddef CSE.

## Sut mae gwasanaeth plant ar goll/CSE dan arweiniad yr heddlu yn gweithio

Mae gwasanaeth plant ar goll/CSE heddlu Gogledd Cymru yn ymateb pan fo plant yn mynd ar goll yn ardal heddlu Gogledd Cymru. Darperir y gwasanaeth gan ddau gydlynydd plant ar goll, a ditectif prif arolygydd yr heddlu o Uned Amddiffyn y Cyhoedd yn rheolwr llinell arnynt, a thri ymarferydd Seraf Barnardo's, dan reolaeth staff Barnardo's Cymru. Sefydlwyd tri thasglu strategol amlasiantaeth plant ar goll/CSE ar gyfer Gwynedd a Môn, Conwy a Sir Ddinbych, a Wrecsam a Sir y Fflint.

Mae pob plentyn neu berson ifanc sy'n dychwelyd adref yn dilyn cyfnod o fod ar goll yn cael ymweliad gan yr heddlu, sy'n cynnal gwiriad 'saff a diogel'. Os bydd plentyn neu berson ifanc yn mynd ar goll deirgwaith neu fwy, bydd cyfarfod strategol plentyn ar goll yn cael ei alw. Bydd ymarferwyr Seraf yn cynnal cyfweliadau dychwelyd adref gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai hynny sydd eisoes wedi eu clustnodi fel rhai sy'n wynebu risg o ddioddef CSE. Bydd cyfarfod strategaeth CSE yn cael ei alw mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc pan ganfyddir mwy o dystiolaeth o risg.

10 Smeaton, E (2003) Running from hate to what you think is love: The relationship between running away and child sexual exploitation. Barnardo's, Barkingside.

11 Wade, J; Mitchell, F; Rees, G (2002) Running away in Wales: patterns, needs and services. National Assembly for Wales.

12 Missing Persons: Data and Analysis 2011/12. Missing Person's Bureau.

13 Anson, E and Holmes, D (2014) That Difficult Age: Developing a more effective response to risk in adolescence. Research in Practice/ADCS, Dartington.

14 Cutting them free: How is the UK progressing in protecting its children from sexual exploitation? (2011). Barnardo's, Barkingside.

15 Beckett, H (2011) 'Not a world away': The sexual exploitation of children and young people in Northern Ireland. Barnardo's, Northern Ireland.

Mae ymarferwyr Seraf hefyd yn cynnal rhaglen ymwybyddiaeth 12 wythnos fel rhan o'r gwasanaeth hwn. Mae hyn yn cael ei gynnal fel gwasanaeth un i un, ac mae pobl ifanc yn cael eu cyfeirio yn dilyn cyfarfod strategaeth CSE.

## Proffil y bobl ifanc yr effeithir arnynt

Roedd yr ymchwil hwn yn cyfeirio at ddata a gasglwyd gan  wasanaeth Seraf yng Ngogledd Cymru ar bobl ifanc oedd yn mynd ar goll ac yn wynebu risg o gael eu cam-drin neu o ddioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant. Casglwyd y data rhwng Mawrth 2010 ac Ionawr 2015.

Darparodd Heddlu Gogledd Cymru hefyd sampl o ddata I-Trace wedi ei olygu, sy'n cofnodi data mewn perthynas â phobl ifanc sy'n mynd ar goll, o Ebrill 2014 i Ebrill 2015.

Mae data y gwasanaeth Seraf yn dangos bod y bobl a aseswyd, ar gyfartaledd, rhwng 14 ac 16 oed. Roedd gan y sampl data I-Trace ystod oedran ehangach, sef 12 i 17 oed. Ymysg y rhai oedd wedi mynd ar goll fwy na 12 o weithiau yn ystod y flwyddyn, roedd yn dangos bod wyth ohonynt yn fenywaidd a dau yn wrywaidd.

Y lefelau risg a gofnodwyd gan y gwasanaeth Seraf yn ystod y cyfnod hwn oedd:

| | |
|---|---|
| Dim risg | 3% |
| Risg bychan | 6% |
| Risg cymedrol | 11% |
| Risg sylweddol | 80% |

Bu i ddata Seraf hefyd amlygu nodweddion amlycaf profiad plentyn neu berson ifanc allai olygu eu bod yn agored i ddioddef CSE:

| | |
|---|---|
| Diffyg perthynas gadarnhaol ag oedolyn | 60% |
| Esgeulustod emosiynol | 63% |
| Hunanwerth isel | 74% |
| Perthynas deuluol yn methu | 86% |

Mae hyn yn tanlinellu pa mor werthfawr yw i bobl ifanc gael perthnasoedd diogel a chyson gydag oedolion y gellir ymddiried ynddynt. Mae pobl ifanc yn emosiynol ynysig ac yn agored i niwed pan fo'u perthnasoedd gydag oedolion gofalgar a chyfrifol yn dirywio neu'n methu. Er gwaethaf awydd datblygiadol y glasoed i gael mwy o annibyniaeth ac arwahanrwydd oddi wrth oedolion, mae'n bwysig rhoi sylw a chadw llygaid ar bobl ifanc sy'n gwahanu eu hunain yn gynyddol oddi wrth eu rhwydwaith gofal.

Yn aml cydnabyddir bod camddefnyddio sylweddau, trais domestig ac afiechyd meddwl yn gydgysylltiol - y 'triawd gwenwynig'. Roedd un neu ragor o'r elfennau hyn yn perthyn i hanes teuluol tua hanner y bobl ifanc a aseswyd.

Mae'r SERAF yn cynnwys dangosyddion risg ar gyfer helpu i asesu a yw plentyn neu berson ifanc yn wynebu risg bychan, cymedrol neu sylweddol o ddioddef CSE. Mae'r tabl canlynol yn dangos y chwe dangosydd cymedrol a gofnodir amlaf a'r pedwar dangosydd sylweddol a gofnodir amlaf:

| **Dangosyddion risg cymedrol** | |
|---|---|
| Defnydd o'r rhyngrwyd sy'n peri pryder | 43% |
| Defnydd o ffôn symudol sy'n peri pryder | 46% |
| Camddefnyddio alcohol | 50% |
| Gwaharddiad/absenoldeb/ddim yn ymgysylltu ag addysg | 66% |
| Aros allan yn hwyr | 75% |
| Mynegi anobaith/hunan niwed/meddyliau/gweithredoedd hunanladdol | 78% |
| **Dangosyddion risg sylweddol** | |
| Cyfoedion yn ymwneud â chlipio/camfanteisio rhywiol | 30% |
| Datgelu ymosodiad, a'r cyhuddiad wedyn yn cael ei dynnu'n ôl | 31% |
| Perthynas ag oedolyn sy'n rheoli | 54% |
| Cyfnodau o fynd ar goll dros nos neu am gyfnod hirach | 62% |

Mae'r anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â phobl ifanc sy'n agored i ddioddef CSE yn awgrymu y gallant fod yn grŵp 'anodd ei gyrraedd'. Er mwyn canfod cyfranogwyr posibl ar gyfer yr ymchwil hwn oedd yn ddefnyddwyr y gwasanaeth, cysylltwyd â gwasanaeth Seraf Barnardo's Cymru a gwasanaethau eraill yng Ngogledd Cymru. Roedd yr ymarferwyr yn ystyried mai ychydig iawn o'r bobl ifanc yr oeddent yn gweithio â hwy oedd yn gyfranogwyr addas, a bu i rai o'r bobl ifanc y bu i ni gysylltu â hwy benderfynu nad oeddent yn dymuno cymryd rhan yn yr ymchwil.

Felly, mae'r ymchwil hwn yn cynnwys tystiolaeth o gyfweliadau trylwyr gyda thri pherson ifanc yn unig. Fodd bynnag, roedd eu hadroddiadau'n gynhwysfawr a manwl, ac yn adlewyrchiad cryf o'r hyn yr ydym yn ei wybod am brofiadau pobl ifanc eraill sy'n cael cymorth drwy waith mewn perthynas â chamfanteisio rhywiol.



# Adran Dau: Beth ddywedodd pobl ifanc wrthym

## Ynglŷn â mynd ar goll

Bu i'r bobl ifanc a siaradodd â ni gyfeirio at nifer o ffactorau 'gwthio' mewn perthynas â mynd ar goll, megis problemau gyda'u teuluoedd, ffrindiau neu ysgol. Bu iddynt hefyd gyfeirio at ffactorau 'denu': roedd rhai yn teimlo'n hapusach i ffwrdd o'r lle yr oeddent wedi ei adael, cyfeiriodd eraill at ymddygiad o gymryd risgiau a chyfeiriodd eraill at feithrin perthynas amhriodol.

'Problemau teuluol megis ymladd gyda'r teulu, problemau yn y cartref... pethau fel yna.'

'Rwy'n credu eu bod yn rhedeg i ffwrdd at rywbeth hapusach oherwydd efallai bod ganddynt broblemau teuluol neu broblemau yn yr ysgol, neu gyda ffrindiau sydd wedi troi eu cefnau arnynt, efallai bod ganddynt broblemau teuluol ac eisiau gadael y cartref.'

'Rwy'n gwybod sut mae'n teimlo, pam fod pobl yn rhedeg i ffwrdd a pham fod ganddynt broblemau. Os oes gan rywun broblemau ac nad ydynt yn gallu ymdopi ac nad ydynt eisiau dweud wrth neb, maent yn rhedeg i ffwrdd neu yn cosbi eu hunain.... mae rhai pobl yn meddwl y bydd hyn yn tawelu eu meddyliau a'i fod yn ffordd o gael gwared â'r problemau.'

Bu i eraill ddweud bod pwysau cyfoedion yn ffactor.

'Pan oeddwn yn rhedeg i ffwrdd, roeddwn yn gwneud hynny oherwydd fy mod wedi dilyn pobl.'

'...Pwysau cyfoedion, oherwydd gall rhywun ddweud, "Mae hwn a'r llall wedi gwneud hyn a'r llall."... Ac efallai y bydd pobl yn dweud, "Rwyf i am wneud hyn oherwydd mae hwn a'r llall wedi gwneud hyn."'

## Ynglŷn â'r broses o feithrin perthynas amhriodol

Bu i un person ifanc gyfeirio at y broses o feithrin perthynas amhriodol, gan ddisgrifio sut y gall 'rhai pobl ddod yn agos iawn atoch, ac yna maent yn gwneud rhywbeth maent yn gwybod eich bod yn ei hoffi'n fawr.' Bu iddo siarad am gael ei ynysu oddi wrth ei deulu fel rhan o'r broses o feithrin perthynas amhriodol:

'Roedd yn fy ngwthio oddi wrth fy nheulu, gan ddweud wrtha i, "Ymddirieda ynof i, byddaf yma i ti bob amser. Ac nid wyf am wneud niwed i ti, nid wyf byth am dy adael, gelli ymddiried ynof i."'

Bu i'r person ifanc yma hefyd ddisgrifio newidiadau yn ei ymddygiad ei hun ac yn ei berthynas â'i deulu o ganlyniad i'r broses o feithrin perthynas amhriodol:

'Bu i mi newid llawer.... Roeddwn yn llawer mwy blin, bu i mi wahanu fy hun oddi wrth fy nheulu ac nid oeddwn yn treulio dim amser i lawr y grisiau.'

## Ynglŷn â beth ddigwyddodd tra'r oeddent ar goll

Bu i'r bobl ifanc siarad am faterion goroesi elfennol, megis canfod rhywbeth i'w fwyta a rhywle i gysgu, a hefyd am faterion diogelwch.

> Weithiau nid ydych yn meddwl am bopeth, efallai na fyddwch yn meddwl am yr holl arian fydd ei angen arnoch... ble'r ydych yn mynd i aros, sut ydych am gael arian, sut ydych am gael bwyd.'

Siaradodd un person ifanc am ymweld â theulu a ffrindiau, a roddodd fwyd a lloches iddo, a hefyd am fynd ar goll gyda phobl ifanc eraill a mynd â hwy i lefydd i aros.'

> 'Roeddwn yn aros yn nhai ffrindiau a theulu ble'r ydych yn gwybod na fyddant yn chwilio ynddynt...bob tro yr wyf wedi rhedeg i ffwrdd, roedd gen i bob amser rywle i fynd iddo oherwydd rwyf wedi byw mewn llawer o ardaloedd ac rwyf yn adnabod tipyn go lew o bobl felly rwyf yn gwybod ble i redeg iddo... Rwyf wedi mynd unwaith neu ddwy ar fy mhen fy hun, ond gyda phlant eraill bob tro arall.'

Bu iddynt hefyd gyfeirio at y risg o droseddu tra maent ar goll er mwyn cael arian i brynu cyffuriau, a'r posibilrwydd o gael eu harestio. Mater arall a nodwyd oedd gwrthdaro yn ystod cyfnodau o fod ar goll, a phobl ifanc yn 'ffraeo drwy'r amser, yn cael eu taro a phethau fel yna.'

Bu i'r bobl ifanc hefyd siarad am y ffyrdd y mae oedolion yn eu targedu, yn meithrin perthynas amhriodol â hwy ac yn eu rheoli:

> '...ymddiried mewn pobl, oherwydd efallai eu bod yn dweud, "O, fedra i dy helpu," ac yna gallant droi i fod yn ddrwg ac o ganlyniad i hynny gallwch gael eich cam-drin, dioddef ymosodiad a'ch treisio a hynny i gyd.'

> 'Mae'r ffordd y maent yn gwneud hyn yn glyfar, ond nid ydyw mewn gwirionedd...drwy gynnig mynd â chi i barti ac yn y blaen ac yna maent yn eich meddwi ac maent yn dweud wrthych am gymryd ychydig o hwn a chyffuriau...a gall rhai dynion fod yn neis iawn, yn cynnig arian bwyd iddynt a lle i aros, ac maent yn dechrau troi'n fygythiol ac yn dweud bod rhaid i chi dalu am yr hyn sy'n ddyledus, felly maent yn dweud wrthynt am gysgu gyda'u ffrindiau, ac mae'n ffiaidd.'

> '...camdriniaeth rywiol, cael eich curo, gweld dynion yn ceisio'ch cymell i gysgu gyda pherson arall am arian...eich cymell i ddefnyddio cyffuriau.'

## Ynglŷn â dychwelyd adref

Bu i'r bobl ifanc siarad am eu pryderon ynglŷn â dychwelyd adref, p'un ai'n ôl at eu teuluoedd neu leoliad preswyl:

> 'Meddyliais am beth fyddai'n digwydd petawn yn mynd yn ôl, a fyddent yn wirioneddol flin efo fi, a fuaswn yn cael fy nghadw i mewn am weddill fy oes?

A fyswn yn cael gadael y tŷ o gwbl...ac efallai na fyddent yn fy nghredu?

'Weithiau roeddent yn iawn efo fi, a thro arall buaswn yn cael y drefn, yn dibynnu ar ba reswm yr oeddwn yn ei ddweud wrthynt, byddent yn ceisio datrys y sefyllfa yn amlach na pheidio...os na fyddai yna reswm o gwbl byddent yn dweud "Pam yr wyt wedi gwneud hyn? Am ddim rheswm?"... Mae rhai aelodau staff yn gweithio am ddau ddiwrnod ac yn gorfod aros yn effro yn chwilio amdanoch ac maent yn teimlo'r straen, ac nid ydynt angen hynny...maent wedi bod yn effro am duw a ŵyr faint o amser ac wedi ceisio chwilio amdanoch, maent yn gallu bod ychydig yn flin.'

Roedd ofni dial gan y tramgwyddwr hefyd yn bryder mewn perthynas â dychwelyd adref:

'Roeddwn yn ofni y byddai'r person yn cynddeiriogi petai'n cael gwybod, neu y byddai rhywbeth drwg yn digwydd.'

Mater arall oedd pryderon ynglŷn â be fyddai oedolion yn ei feddwl ohonynt wrth iddynt ddychwelyd:

'Roeddwn yn ofni petawn yn dweud fy mod wedi gwneud pethau y byddent yn dweud fy mod yn ferch wirion.'

## Ynglŷn â'r broses o ddychwelyd adref

Dywedodd y bobl ifanc wrthym eu bod yn amharod i gyfrannu'n llawn i wiriadau 'saff a diogel' oherwydd y posibilrwydd o fynd ar goll eto yn y dyfodol neu oherwydd pryderon ynglŷn â chreu helynt i eraill.

'Mae'r heddlu yn gofyn i chi ble'r ydych wedi bod, ond nid ydych yn dweud wrthynt fel y gallwch fynd yn ôl yno y tro nesaf.'

'...oherwydd byddant yn creu helynt i bobl eraill a byddant yn cael gwybod.'

Siaradodd y bobl ifanc hefyd am arddull cyfweliadau gwiriadau saff a diogel:

'Yr heddlu, byddant yn eich holi ac yn eich holi, pam ddaru chi wneud hyn, pam ddaru chi wneud rhywbeth arall?'

'Byddant eisiau cael mwy o wybodaeth, felly byddant yn ceisio gwneud unrhyw beth i'ch cymell i ymddiried ynddynt...Weithiau, os byddant yn teimlo na fyddant yn cael ateb i gwestiwn, byddant yn newid y cwestiwn er mwyn gwneud iddo edrych fel cwestiwn gwahanol.'

Awgrymodd un person ifanc y byddai cyfle i siarad yn ddiweddarach am yr hyn ddigwyddodd yn fuddiol.

'Nid oeddwn yn gallu cofio llawer o bethau, ac yna roeddwn yn gresynu na fyddent wedi aros am fis neu wythnos oherwydd erbyn hynny buaswn wedi cofio...Gofynnais, "Allwch chi ofyn i mi ymhen ychydig ddyddiau," a'r ateb oedd, "Wel, mae rhai pobl yn anghofio", a dywedais,

“Ond bydd y rhan fwyaf o bobl yn cofio beth arall ddigwyddodd.” Oherwydd eich bod yn dal mewn sioc, rydych yn ceisio cofio popeth.’

Roedd y bobl ifanc yn dweud eu bod yn teimlo’n fwy cyfforddus yn datgelu gwybodaeth i weithwyr Seraf Barnardo’s: ‘Roeddwn yn gallu siarad am unrhyw beth gyda [enw]’. Dywedodd un person ifanc bod rhoi gwybodaeth i weithiwr Barnardo’s, y byddai’n rhaid iddynt ei throsglwyddo i’r heddlu, yn golygu na fyddai raid iddynt ysgwyddo’r cyfrifoldeb o hysbysu’r heddlu eu hunain.

‘...Oherwydd os ydynt mewn perygl, mae’n rhaid iddynt [gweithwyr Seraf] ddweud wrth eu cydweithwyr, eu penaethiaid, dylent ddweud wrth yr heddlu.’

**Argymhelliad 1**: Dylid datblygu gwybodaeth ac arweiniad ar gyfer rhieni, gofalwyr a staff preswyl ynglŷn â’r ffyrdd gorau o ymateb i blant a phobl ifanc pan fyddant yn dychwelyd yn dilyn cyfnod o fod ar goll.

# Ynglŷn ag atal pobl ifanc rhag mynd ar goll

Dywedodd y bobl ifanc bod gwybod bod gwasanaethau cymorth ar gael a sut i gael mynediad iddynt a sut i gysylltu â’r gwasanaethau yn fater allweddol ‘fel y gallant siarad â phobl a chael cyngor’.

Bu iddynt hefyd siarad am hygrededd pobl ifanc fel addysgwyr cyfoedion ac am y cyngor y buasent yn ei roi i blant a phobl ifanc mewn sefyllfaoedd tebyg.

‘Nid yw rhai plant yn hoffi siarad am broblemau...ond ar ôl ychydig rydych angen siarad â rhywun, neu fel arall byddwch yn rhedeg i ffwrdd.’

‘Peidiwch â rhedeg i ffwrdd....os oes yna ffraeo yn y tŷ neu rywbeth, ewch am dro a mynd yn ôl a thawelu eich meddwl, peidiwch â rhedeg i ffwrdd neu unrhyw beth arall.’

‘Os bydd rhywun yn dweud wrthych mai dim ond ynddyn nhw y gallwch ymddiried, y byddant yno i chi bob amser....Mae angen i chi siarad â rhywun ar frys, os ydych yn teimlo mai dim ond gyda’r un person yna y gallwch siarad ac mai dim ond yn y person hwnnw y gallwch ymddiried, bydd yn sefyllfa anodd iawn i chi a bydd raid i chi ddod â’r berthynas i ben.’

**Argymhelliad 3:** Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gamfanteisio’n rhywiol ar blant, a ddatblygwyd gyda chymorth pobl ifanc, er mwyn helpu plant a phobl ifanc i gadw’n ddiogel a cheisio help, eisoes ar gael.[16] Dylid ystyried datblygu canllawiau tebyg er mwyn rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc ynglŷn â risgiau mynd ar goll. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am ble i fynd i gael help a chymorth gyda’r pethau sydd efallai’n gwneud iddynt feddwl am fynd ar goll, ac yn ystod cyfnodau pan maent ar goll.

16 Sexual Exploitation: Sex, Secrets and Lies – Your Guide (2013). Available at www.barnardos.org.uk/cse_booklet_sex_secrets_and_lies_-_english_version.pdfhttp://www.barnardos.org.uk/cse_booklet_sex_secrets_and_lies_-_english_version.pdf

## Ynglŷn â'r profiad o gael cymorth

Roedd dau o'r ymatebwyr wedi cwblhau'r rhaglen ymwybyddiaeth risg 12 wythnos gyda gweithwyr Seraf Barnardo's ac roeddent yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn ag ansawdd y berthynas yr oedd ganddynt gyda'r gweithwyr, y cyngor a'r wybodaeth a roddwyd iddynt, y broses ymyrryd a'r teimlad bod rhywun yn gwrando arnynt.

> 'Rhywun i siarad gyda chi, faint bynnag mae fy rhieni yn dweud, "Gelli siarad gyda ni amdano," nid wyt yn gallu gwneud hynny mewn gwirionedd... mae'n braf cael rhywun dieithr sydd...wedi cael profiad.'

> 'Mae [Enw] wedi dweud wrtha i os wyf eisiau siarad amdano ac os wyf yn digalonni y gallaf bob amser ffonio Barnardo's neu ffonio Childline neu rywbeth fel yna...ac yr oeddwn yn hoffi hynny oherwydd byddaf yn colli hyn. Ond...rwyf yn falch ei fod drosodd...Oherwydd rwyf wedi datrys y broblem ac mae wedi dod i ben...os byddaf angen unrhyw help gallaf ffonio rhywun arall unrhyw dro.'

**Argymhelliad 4**: Dylid darparu rhaglenni cydnerth a chynaledig o ymyrraeth uniongyrchol a chymorth therapiwtig i blant a phobl ifanc sy'n wynebu risg sylweddol o ddioddef neu o gael eu cam-drin drwy CSE, fel rhan o gynllun gofal a chymorth er mwyn sicrhau eu diogelwch a'u hadferiad.

### Canfyddiadau allweddol: pobl ifanc

- **Mae pobl ifanc yn mynd ar goll am nifer o resymau:** i ddianc oddi wrth wrthdaro, oherwydd eu bod yn teimlo'n emosiynol ynysig, oherwydd ei fod yn gyffrous, er mwyn treulio amser â phobl ifanc eraill, neu o ganlyniad i berthynas ag oedolyn sy'n eu cam-drin neu'n meithrin perthynas amhriodol â hwy.
- **Pan fo pobl ifanc yn mynd ar goll:** maent yn cael trafferth cael gafael ar arian, bwyd a rhywle diogel i aros ynddo, maent yn profi gwrthdaro â phobl ifanc eraill ac maent yn wynebu risg o feithrin perthynas amhriodol, camfanteisio a cham-drin rhywiol.
- **Pan fo pobl ifanc yn dychwelyd ar ôl cyfnod o fod ar goll:** maent yn teimlo'n bryderus ynglŷn ag ymateb rhieni, gofalwyr a staff preswyl.
- **Mae pobl ifanc yn amharod i ddatgelu gwybodaeth yn dilyn cyfnod o fod ar goll:** maent yn poeni y byddant yn creu helynt i bobl ifanc eraill neu oedolion os byddant yn datgelu ble maent wedi bod a gyda phwy maent wedi bod, maent eisiau gallu dychwelyd yn y dyfodol i'r mannau a/neu at y bobl y maent wedi bod gyda hwy, ac maent yn ofni y bydd tramgwyddwyr yn dial arnynt.
- **Yn aml gall pobl ifanc fod yn fwy amharod i ddatgelu gwybodaeth i'r heddlu:** mae gwybodaeth am rôl yr heddlu yn effeithio ar y ffordd y mae rhai pobl ifanc yn ymateb iddynt. Nid yw pobl ifanc bob amser eisiau ysgwyddo'r cyfrifoldeb o roi gwybodaeth yn uniongyrchol i'r heddlu, ac ar brydiau mae'n well ganddynt drosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn i weithwyr proffesiynol eraill.



# Adran Tri: Beth ddywedodd Gweithwyr Proffesiynol ac Ymarferwyr wrthym

## Ynglŷn ag arferion

### Codi ymwybyddiaeth ac atal

Roedd gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr yn cydnabod bod ymwybyddiaeth o CSE a'r cysylltiad rhwng mynd ar goll a'r risg o ddioddef CSE wedi gwella'n sylweddol ymysg asiantaethau allweddol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, bu iddynt gyfeirio hefyd at yr angen i godi mwy o ymwybyddiaeth ac ehangu hyfforddiant i blant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr ac ymarferwyr a phobl broffesiynol sy'n gweithio y tu allan i wasanaethau cymdeithasol.

Nodwyd bod addysg ynghylch perthnasoedd iach, adnabod risgiau a'r broses o feithrin perthynas amhriodol yn faes pwysig i'w ddatblygu, ac roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai'r gwaith hwn gychwyn yn yr ysgol gynradd, a'r cynnwys yn cael ei addasu i fod yn briodol i wahanol oedrannau:

> 'Nid oes pwrpas disgwyl nes bod rhywun yn agored i niwed - mae angen i ni fod yn eu haddysgu cyn iddynt gyrraedd y pwynt hwnnw.'

Bu i'r ymatebwyr hefyd nodi'r angen am gyngor a chymorth i rieni a gofalwyr, a bu iddynt adrodd am ddiffyg adnoddau i alluogi rhieni a gofalwyr i ddeall risgiau a chadw'u plant yn ddiogel.

**Argymhelliad 5:** Dylai addysg ynghylch CSE, cadw'n ddiogel a pherthnasoedd iach fod ar gael ym mhob sefydliad addysgol, fel rhan o raglen atal.

**Argymhelliad 6:** Dylai adnoddau, cyngor a chymorth fod ar gael er mwyn galluogi rhieni a gofalwyr i adnabod risgiau'n well a gwarchod eu plant a phobl ifanc yn well rhag dioddef camdriniaeth drwy CSE.

### Adnabod CSE ac ymateb iddo

Bu i weithwyr proffesiynol amlygu cynnydd yn nifer y bobl ifanc y canfuwyd eu bod yn wynebu risg o ddioddef neu oedd wedi dioddef CSE yn ystod y blynyddoedd diweddar, a bu cynnydd cyfatebol yn nifer cyfarfodydd strategaeth CSE. Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn ystyried bod hyn yn dystiolaeth o gynnydd yn y math hwn o gamdriniaeth, tra bod eraill yn cydnabod bod mwy o ymwybyddiaeth yn arwain at ganfod mwy o achosion.

> 'Yn y gorffennol rwyf wedi eistedd mewn cyfarfodydd pan fo [sefydliad] wedi dweud, "Mae'r plant yma yn pleidleisio gyda'u traed, ni allwn wneud unrhyw beth," ond nid wyf yn clywed hynny nawr...Rwyf yn meddwl bod CSE wedi bod mor flaenllaw fel bod pobl yn sylweddoli, oes, mae yna rywbeth mwy i hyn.'

'Gan edrych yn ôl nawr, roeddech drwy'r amser yn gweld bod y pethau yma'n digwydd, ond nid oeddech yn ei ystyried fel CSE o reidrwydd...roedd yn cael ei drin fel achosion unigol mewn perthynas â'r cyfnodau o fynd ar goll neu pa fath o droseddau yr oeddent, ond yn sicr nid oedd yn cael ei ystyried fel y mae'n cael ei ystyried heddiw....mae yna ymgyrch anferthol wedi bod er mwyn gwneud i bobl sylweddoli beth ydyw a beth sydd angen ei wneud,'

Fodd bynnag, bu i bobl broffesiynol gyfeirio at yr angen i ddeall mwy am y ffordd y mae camddefnyddio plant yn rhywiol yn gweithio a'r angen am godi mwy o ymwybyddiaeth a hyfforddiant.

'Nid ydym yn agos at ei ddeall yn iawn.'
'Rwy'n credu mai dim ond crafu'r wyneb yr ydym - mae'n wirioneddol yn drosedd gudd.'

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo nad oedd gan bob sefydliad ac ymarferwyr ddealltwriaeth weithredol o CSE a phlant ar goll:

'Nid wyf yn credu bod pobl yn ddigon ymwybodol o hyn - mae gan bawb gylch gwaith gwahanol hefyd, ac mae'n anodd iawn oherwydd mae'n debyg y buaswn yn hoffi dweud, "Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant fod yn chwilio am hyn."

Bu i rai ymatebwyr amlygu canfyddiad peryglus ymysg rhai ymarferwyr bod pobl ifanc hŷn sy'n ymwneud â CSE yn gwneud eu dewisiadau eu hunain:

'Nid mater o rywun yn dewis cael rhyw gyda rhywun arall pan fo'n blentyn na hyd yn oed pan fo'n oedolyn sy'n agored i niwed yw hyn... Mae'n rhaid i ni sylweddoli nad oes ganddynt y gallu i wneud y penderfyniad hwnnw.'

'Mae pobl yn tybio beth sy'n digwydd, a hynny yn anghywir, "mae'n 17 oed, mae'n ferch ddrwg, mae'n gwneud ei phenderfyniadau," oherwydd rydym yn gwybod nad yw'n hynny'n wir mewn gwirionedd.'

Bu i weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr gyfeirio at yr angen i hyfforddi staff gwasanaethau prif lif, er mwyn rhoi cymorth o ran canfod risgiau o wynebu CSE ac ymatebion priodol i hynny, a rolau ym maes addysg ac iechyd a nodwyd amlaf. Yn benodol, roeddynt yn cydnabod yr angen i hyfforddi rhai sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, unedau cyfeirio disgyblion ac AHY (Addysg Heblaw yn yr Ysgol) a CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed), clinigau iechyd rhywiol, damweiniau ac argyfwng, meddygfeydd a nyrsys ysgolion. Hefyd, nodwyd gweithwyr ieuenctid, timau troseddwyr ifanc a staff unedau diogel fel grwpiau fyddai'n elwa o dderbyn hyfforddiant.

Roedd gweithwyr proffesiynol yn ystyried mai pobl ifanc sydd ar goll o'u cartrefi sy'n wynebu'r risg mwyaf o ddioddef CSE:

'Bod ar goll yw'r dangosydd risg mwyaf sylweddol yn achos CSE ac maent wedi eu gwahanu oddi wrth y ffactorau gwarchodol pan maent ar goll...maent yn meithrin cysylltiadau gyda phobl eraill, yna maent yn dod i gysylltiad â chyffuriau, alcohol, troseddwyr rhyw cofrestredig neu gymeriadau annymunol...mae'n achos pryder mawr.'

Bu i'r ymatebwyr gyfeirio at y cysylltiad rhwng profiadau anodd neu drawmatig yn ystod plentyndod cynnar, gallu rhiantu cyfyngedig a bod yn agored i ddioddef CSE. Roedd rhai ymatebwyr yn ystyried bod plant sy'n derbyn gofal 'bron yn agored i niwed yn eu hanfod', o ganlyniad i'r profiadau a arweiniodd iddynt fod yn derbyn gofal yn y lle cyntaf. Roedd gweithwyr proffesiynol yn teimlo bod y nodweddion hyn yn ffocws targedu gan dramgwyddwyr:

> 'Mae tramgwyddwyr yn fwriadol yn chwilio am grwpiau penodol o bobl ifanc sy'n perthyn i'r categori hwnnw o fod yn agored i niwed y mae'n ymddangos ei bod yn hawdd meithrin perthynas amhriodol â hwy a'u bachu.'

Nodwyd hefyd bod ymgysylltu gwael ag addysg a phrofiadau o fwlio a pheidio â theimlo'n rhan o gymuned yr ysgol yn nodweddion o fod yn agored i niwed ac yn brofiadau cyffredin ymysg pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddioddef camdriniaeth:

> 'Mae angen i ni fod yn well am ddelio gyda phlant nad ydynt yn mynd i'r ysgol drwy'r amser, y rhai nad ydym o reidrwydd yn ymwneud llawer â hwy, ac mae hynny'n ffactor allweddol arall.'

> 'Y rhai nad ydynt yn mynd yn aml, [sy'n] triwanta.....rwyf yn wirioneddol yn credu bod angen i ni weithio ar godi ymwybyddiaeth ysgolion o hynny.'

Bu i'r ymatebwyr hefyd gyfeirio at yr angen i ystyried cysylltiadau rhwng presenoldeb gwael a materion diogelu posibl.

> 'Mae'r ffocws....yn bennaf ar bresenoldeb plant yn hytrach nag ar y swyddogaeth ddiogelu.'

Bu i nifer o weithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol siarad am yr angen i fod yn wyliadwrus mewn perthynas â dangosyddion CSE a phlant ar goll, yn arbennig yn achos pobl ifanc sy'n agored i niwed sydd efallai'n cael eu disgrifio fel rhai sy'n 'anodd ymgysylltu â hwy.'

> 'Yn anffodus, nid yw'r bobl ifanc yma o reidrwydd, waeth faint yr ydym yn ceisio eu targedu, yn ystyried eu hunain fel dioddefwyr ac nid ydynt eisiau ymgysylltu â ni, felly mae hynny wedi bod yn her... Rwy'n meddwl y byddai awdurdodau eraill yn y gorffennol, ac rydym ni wedi gwneud yr un fath, wedi cau achosion yn seiliedig ar hynny.....nid yw'n hawdd i ni wneud hynny bellach.'

Bu i ymarferwyr eraill ddisgrifio'r ffyrdd yr oedd pobl ifanc yn arddangos ymddygiad a oedd yn eu rhoi mewn perygl neu oedd yn gysylltiedig ag effaith eu profiadau neu gamdriniaeth:

> 'Maent yn colli'r cynhesrwydd emosiynol hwnnw...nid ydynt yn hoffi gwneud y cysylltiad yna [gydag ymarferwyr] oherwydd eu bod yn gwybod y bydd raid iddynt ddatgysylltu. [Mae ganddynt] berthynas ar lefel ddatgysylltiedig gyda rhywun er mwyn cael arian ac maent yn dechrau defnyddio'r dechneg honno'n amlach - datgysylltu a blocio, yn hytrach na chydnabod bywyd yn y byd o'u cwmpas.'

‘Mae’r heddlu yn dod â llawer i’r ysbytai ac maent wedi cymryd cyffuriau neu alcohol, maent yn anafu eu hunain - yn aml mae CAMHS yn ymwneud â hwy ac maent ar goll o’u cartrefi.’

Bu i weithwyr proffesiynol ddisgrifio’r bobl ifanc sy’n wynebu risg o ddioddef neu o gael eu cam-drin drwy CSE fel y rhai ‘mwyaf difreintiedig a drylliedig’, a bod ganddynt hunanwerth isel a dim perthnasoedd i’w magu yn eu bywydau. Nodwyd bod gallu rhiantu cyfyngedig mewn rhai teuluoedd yn ffactor sy’n creu mwy o risg i bobl ifanc, a cheir enghreifftiau o deuluoedd yn methu â riportio bod plant 13 oed ar goll dros nos.

‘Rwy’n credu bod y rhieni eu hunain yn eithaf agored i niwed... ac nid oes ganddynt y cryfder na’r mewnwelediad na’r deallusrwydd emosiynol i riantu’r plant hynny, ac oherwydd hynny, os oes ganddynt blentyn 16 oed sy’n camymddwyn ac yn aros allan drwy’r nos, rwyf wedi eistedd mewn cyfarfodydd ble [gofynnwyd], “Pam na ddaru chi ffonio’r heddlu?” ac maent yn ateb, “Wel, roeddem yn meddwl y byddai’n dod yn ôl.”’

Roedd gweithwyr proffesiynol hefyd yn bryderus ynglŷn â’r ymateb i bobl ifanc sy’n agored i niwed pan maent yn cyrraedd 18 oed nad ydynt yn destun deddfwriaeth gwarchod plant.

**Argymhelliad 7:** Dylid cyflwyno mwy o hyfforddiant CSE i weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar draws pob sector, yn cynnwys addysg, iechyd, gwaith ieuenctid a’r system cyfiawnder troseddol.

## Gwasanaeth plant ar goll/CSE heddlu Gogledd Cymru

Bu i nifer o ymatebwyr gyfeirio at fuddion cael gweithwyr penodedig sydd ag arbenigedd mewn CSE a mynd ar goll:

‘Cafodd effaith gadarnhaol fawr iawn... mae ei swyddogaeth yn allweddol.’

‘Mae’r rôl yma i mi yn gritigol, yn gwbl gritigol... heb y rôl yma rwy’n credu y byddai’r bylchau yn anferth.’

Bu i ymatebwyr ddweud bod y gwasanaeth yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gyfer cefnogi ymatebion i blant a phobl ifanc sy’n wynebu risg o ddioddef neu o gael eu cam-drin drwy CSE. Bu i ddarparwyr gofal plant preswyl adrodd bod prosesau rhannu gwybodaeth a rheoli achosion yn cael gwell cefnogaeth o ganlyniad i ddarparu’r gwasanaeth:

‘Mae’r [cydlynwyr plant ar goll] yn cyflawni diben rhyfeddol o ddefnyddiol, nid yn unig i’r bobl ifanc eu hunain, ond i bobl fel fi sy’n dod i mewn nad ydynt yn gyfarwydd â’r system neu sydd angen y cysylltiad hwnnw er mwyn dweud, “Mae hyn yn digwydd, gyda phwy y dylwn siarad ag ef nawr, pa broses ddylwn ei dilyn nawr?”

Bu i nifer o ymarferwyr gyfeirio at werth gallu cysylltu â gweithwyr Seraf:

'Drwy gael [enw] yn UAC [Uned Amddiffyn y Cyhoedd] fel gweithiwr Seraf..... mae gennych rywun wrth law all wneud y gwaith, all roi cymorth a chyngor.'

Bu i'r ymatebwyr hefyd gyfeirio at fuddion cael adnodd allai ymateb i blant neu bobl ifanc ar goll drwy gyfrwng cyfweliadau dychwelyd adref, a bu iddynt gysylltu'r broses hon gydag ymatebion mwy cydnerth i risgiau CSE. Yn benodol, cyfeiriwyd at fuddion cynnal cyfweliadau gan weithwyr Seraf:

'Mae yna wahanfur yn gysylltiedig â ni [Seraf].....ac nid oes gan [yr heddlu] gymaint o sgiliau â gweithwyr Barnardo's i ddelio â hynny.'

Bu i weithwyr Seraf eu hunain adrodd y gall pobl ifanc fod yn llai amharod i ddatgelu gwybodaeth iddynt:

'Dywed [yr adroddiad], "Nid ydym yn dweud wrth yr heddlu ble maent wedi bod," ac rydym yn mynd allan a byddant yn siarad am y mater yn syth. Ac maent yn dweud nad ydynt yn hoffi siarad â'r heddlu... rwy'n credu bod hynny'n wir oherwydd nad yr heddlu ydan ni efallai.'

Fodd bynnag, bu iddynt hefyd adrodd bod rhai pobl ifanc yn dal yn amharod i ddatgelu llawer, a thybiwyd bod hyn o ganlyniad i rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau er mwyn diogelu pobl ifanc:

'Mae cwpl ohonom wedi dweud..."Nid wyf am ddweud ei enw wrthych oherwydd rwyf yn gwybod y byddwch yn datgelu hynny i'r heddlu," felly mae hynny wedi digwydd, ond maent yn ymgysylltu ac yn siarad ac maent yn dweud wrthym ble maent wedi bod, ond nid ydynt yn rhoi'r [wybodaeth] hanfodol.'

'Mae rhai ohonynt yn ddigon hapus i eistedd a siarad am ble maent wedi bod [a] gyda phwy maent wedi bod, mae rhai ohonynt yn ddigon call ac yn dweud, "Nid wyf am roi unrhyw enwau i chi," pan fyddwch yn gofyn iddynt gyda phwy maent wedi bod, nid yw rhai eisiau siarad o gwbl, yn arbennig os ydynt yn hŷn ac os ydynt wedi dod i gysylltiad yn rheolaidd â CSE.'

Roedd ymarferwyr yn gallu rhoi enghreifftiau o'r ffyrdd y gellid defnyddio'r wybodaeth a gafwyd gan bobl ifanc fel sail i ymatebion diogelu:

'Ni fyddem wedi cael yr wybodaeth honno fel arall...mae'n cael ei defnyddio ar gyfer datblygu a diogelu....gall ddynodi mannau problemus y gallwn eu targedu neu berson penodol y mae angen i ni ei dargedu ac amharu arno, mae hyn wedi arwain at ganlyniadau - bu'n gadarnhaol iawn iawn.'

Hefyd dywedodd ymarferwyr ei bod yn bwysig bod swyddogion yr heddlu sy'n cynnal 'gwiriadau saff a diogel' ar blant sydd wedi dychwelyd ar ôl bod ar goll ond nad ydynt yn derbyn gofal neu sydd eisoes wedi'u clustnodi fel plant sy'n agored i risg, yn gallu 'gofyn y cwestiynau priodol'.

Fel rhan o wasanaeth plant ar goll/CSE heddlu Gogledd Cymru, mae rhai pobl ifanc yn cael eu cyfeirio ar raglen ymyrraeth 12 wythnos gaiff ei chynnal gan weithwyr Seraf.

Mae'r ymyrraeth yn amcanu at ostwng nifer yr achosion o fynd ar goll ac mae'n ymateb sydd wedi'i dargedu at blant a phobl ifanc a asesir eu bod yn wynebu risg bychan neu gymedrol o ddioddef CSE drwy gyfrwng asesiad SERAF. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithio â phobl ifanc er mwyn gwella eu dealltwriaeth o berthnasoedd diogel, iach a phriodol, cadw'n ddiogel ac adnabod arwyddion meithrin perthynas amhriodol a CSE.

Bu i ymarferwyr Seraf adrodd bod yr ymyrraeth yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol ymysg pobl ifanc a asesir eu bod yn wynebu risg bychan neu gymedrol o ddioddef CSE, yn cynnwys gostyngiadau yn niferoedd yr achosion o fynd ar goll, ymgysylltu cadarnhaol a datgelu mwy o wybodaeth. Fodd bynnag, bu i ymatebwyr hefyd fynegi pryderon ynglŷn ag addasrwydd ymyrraeth 12 wythnos fel ymateb i bobl ifanc sy'n wynebu risg sylweddol o ddioddef neu o gael eu cam-drin drwy CSE, y mae angen ymateb dwysach arnynt:

> 'Deuddeg wythnos gyda pherson ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio am ddwy flynedd....nid ydych am grafu'r wyneb hyd yn oed. Byswn yn awgrymu y bydd angen lleiafswm o 12 mis arnoch er mwyn dim ond dechrau ymdrin â phroblemau'r person ifanc hwnnw.'

> 'Bydd llawer iawn o'r 12 wythnos yna yn cael ei neilltuo ar gyfer meithrin perthynas yn unig, felly faint o waith allwch chi ei wneud mewn 12 wythnos? Efallai y gallwch...roi ychydig o strategaethau a dulliau neu dechnegau iddynt, ond mae'n dibynnu pa mor agored i niwed yw'r person ifanc....os ydynt wedi cael profiadau ac anawsterau, rydych yn siarad am therapi hirdymor mewn gwirionedd...er mwyn ceisio newid meddylfryd y person ifanc.'

Roedd yna hefyd bryderon ynglŷn â chymorth parhaus wedi ei reoli ar ddiwedd y 12 wythnos o ymyrraeth, ac am ddiffyg capasiti oherwydd bod mwy o blant a phobl ifanc sy'n wynebu risg yn cael eu clustnodi:

> 'Dim ond hyn a hyn y gall [yr ymarferwr Seraf] ei wneud.....mae hi ar gael i wneud elfennau penodol o waith am hyd at 12 wythnos...nid yw hynny am dargedu pawb nac ydi? Bydd yn cyrraedd pwynt pryd y bydd ganddi restr aros. Felly rwyf yn bendant yn credu y bydd angen mwy o weithwyr arbenigol fel hi.'

## Proses asesu SERAF

Bydd asesiad SERAF (Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol) yn cael ei gynnal pan fo pryder bod plentyn neu berson ifanc efallai'n wynebu risg o ddioddef CSE, yn unol â chanllawiau o dan Brotocol Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant sydd mewn Perygl o gael eu Cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol. Caiff ffurflen SERAF ei llenwi er mwyn cadw gwybodaeth am blentyn neu berson ifanc mewn un man. Mae ffurflen SERAF yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r nodweddion o fod yn agored i niwed a'r risgiau sy'n gysylltiedig â CSE, a chaiff hyn ei bwysoli er mwyn cynhyrchu sgôr sy'n dangos a all CSE fod yn fater i'w ystyried neu beidio mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc.

Datblygwyd SERAF gan Barnardo's Cymru ac fe'i dyluniwyd i gael ei ddefnyddio gan ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc y maent yn dal gwybodaeth amdanynt ac yn gweithio gyda hwy. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai asesiad SERAF gael ei lenwi gan aelod o staff Barnardo's neu weithiwr proffesiynol sydd wedi derbyn hyfforddiant SERAF:

> 'Mae angen person â'r sgiliau priodol i wneud hyn oherwydd os nad yw rhywun wedi cael yr hyfforddiant...ni fyddant yn archwilio hynny [CSE] gyda'r person ifanc....rwy'n meddwl bod gan Barnardo's gymaint o brofiad ac maent yn gyfarwydd â'r materion, ac maent yn eu deall yn gymaint gwell.'

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ystyried bod SERAF yn offeryn pwysig ar gyfer hwyluso trafodaeth mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o CSE:

> 'Bu i ni gynnal cyfarfod strategaeth ar y cyd ynglŷn â hwy [grŵp o bobl ifanc] a SERAF - bu i ni eu cwblhau fel grŵp mawr o bobl bron iawn...felly bu i ni gwblhau'r SERAF, eu casglu'n ôl ynghyd a thrafod y cynllun ynghylch pwy oedd yn gwneud beth a sut yr oeddem am ddelio ag ef...dyma ble mae SERAF yn gymaint mwy na dogfen dwi'n credu.'

Er bod gweithwyr proffesiynol ar y cyfan yn gwerthfawrogi'r SERAF, bu i rai gynnig awgrymiadau ynglŷn â gwell cyfeiriad i ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol o ran cwblhau ffurflen SERAF a'r broses o rannu ffurflen SERAF:

> 'Yr hyn fyddai'n fuddiol.....fyddai cael dwy dudalen sy'n dangos....sampl...copi o ffurflen [SERAF] wedi ei llenwi, yn ddienw wrth reswm, ond dyma'r lefel o fanylder yr ydym yn chwilio amdano, a safon y wybodaeth, dyma'r bobl sydd angen ei derbyn, dyma pwy fydd yn eich cyfarfodydd, dyma pwy sy'n cadeirio, dyma pwy sy'n cadw'r cofnodion, dyma pryd y byddwch yn derbyn y cofnodion, etc. ...yn hawdd i'w ddefnyddio, dwy dudalen.'

**Argymhelliad 8:** Dylid rhannu canllawiau ar ddefnyddio asesiadau SERAF gyda phob ymarferydd a gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

## Canfyddiadau allweddol: gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr

### Ynglŷn ag arferion

#### Codi ymwybyddiaeth, atal, adnabod ac ymateb i CSE

- Mae ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef neu o gael eu cam-drin drwy CSE, yn ymwybodol iawn o effaith CSE ac mae ganddynt y sgiliau i adnabod plant a phobl ifanc sydd mewn perygl.

- Hefyd, bu gwelliannau amlwg yn y ffyrdd y mae ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol ar draws y sector statudol yn ystyried, deall ac yn ymateb i bobl ifanc gydag 'ymddygiad peryglus' neu bobl ifanc sydd wedi neu sydd yn cael eu cam-drin drwy CSE.
- Mae angen mwy o hyfforddiant ar ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes addysg, iechyd, gwaith ieuenctid a'r system cyfiawnder troseddol.
- Mae yna bryder o hyd am y ffyrdd y caiff meithrin perthynas amhriodol a cham-drin pobl ifanc hŷn ei ystyried a'i ddeall, ac ar brydiau ystyrir bod camdriniaeth yn rhywbeth y mae pobl ifanc hŷn yn ei ddewis.
- Mae rhai ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol yn dal yn teimlo'n rhwystredig ynglŷn â'r her sylweddol o geisio cael plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn cynlluniau diogelwch, ac efallai bod hyn yn awgrymu bod angen mwy o gymorth i ddatblygu sgiliau gweithwyr proffesiynol.
- Mae angen codi mwy o ymwybyddiaeth o CSE a mwy o wybodaeth a chyngor wedi ei dargedu at blant a phobl ifanc drwy gyfrwng addysg a sefydliadau cymunedol, a mwy o wybodaeth i rieni a gofalwyr, er mwyn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

**Gwasanaeth plant ar goll/CSE heddlu Gogledd Cymru**

- Bu i ymatebwyr gyfeirio at fuddion cael gweithwyr penodedig sydd ag arbenigedd mewn CSE a mynd ar goll.
- Nodwyd buddion cyfweliadau gaiff eu cynnal gan weithwyr Seraf, a rhoddodd gweithwyr Seraf enghreifftiau o ddefnyddio gwybodaeth o'r cyfweliadau fel sail i ymatebion diogelu.
- Mae ymarferwyr yn ystyried bod y rhaglen 12 wythnos yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r rhai yr asesir eu bod yn wynebu risg bychan neu gymedrol o CSE, ond mae rhai pobl yn credu bod angen ymateb mwy dwys ar bobl ifanc sy'n wynebu risg sylweddol o gael eu cam-drin drwy CSE.

**Asesiad SERAF**

- Yn gyffredinol, ystyrir bod SERAF yn offeryn pwysig ar gyfer hwyluso penderfyniadau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o ddioddef CSE.
- Mae rhai gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr yn credu mai gweithiwr arbenigol neu rywun sydd wedi cwblhau hyfforddiant SERAF yn unig ddylai lenwi ffurflen SERAF. Mae angen mwy o arweiniad ynglŷn â sut i lenwi a phrosesu ffurflen SERAF.

## Ynglŷn â lleoliadau mewn gofal preswyl preifat yng Ngogledd Cymru

Gall plant a phobl ifanc o awdurdodau lleol yn Lloegr gael eu lleoli mewn gofal preswyl yng Ngogledd Cymru. Yn aml, mae pobl ifanc a ddaw i gysylltiad â gwasanaeth plant ar goll/CSE heddlu Gogledd Cymru wedi cael eu lleoli yng Ngogledd Cymru fel achosion brys, o ganlyniad i bryderon difrifol ynglŷn â chyfnodau o fynd ar goll a CSE. Mae'r awdurdodau wedi ceisio eu diogelu drwy eu symud yn gorfforol oddi wrth dramgwyddwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryder mewn perthynas â lleoli plant gan awdurdodau o Loegr oherwydd 'diffyg cynllunio effeithiol a rhannu gwybodaeth er mwyn penderfynu ar argaeledd gwasanaethau addysg, iechyd, cymdeithasol a gwasanaethau eraill er mwyn bodloni anghenion y plentyn.'[17]

Bu i ymatebwyr i'r ymchwil hwn hefyd fynegi pryderon sylweddol ynglŷn â'r ffaith nad oedd lleoliadau, yn arbennig lleoliadau argyfwng, ar gyfer plant a phobl ifanc o du allan i Ogledd Cymru wedi cael eu cynllunio'n ddigonol. Mae'n rhaid i hysbysiadau ac ymgynghoriadau sy'n effeithio ar unrhyw leoliadau y tu allan i'r sir gael eu gweithredu o fewn pum diwrnod gwaith yn dilyn lleoliad argyfwng.[18] Fodd bynnag, bu i'r ymchwil hwn ganfod y gall gwybodaeth berthnasol fod yn destun oedi, ac nad yw cynllunio lleoliadau mewn perthynas â diogelu plant a phobl ifanc yn yr hirdymor yn ddigon cydnerth.

> 'Mae popeth yn troi o gwmpas lleoliadau argyfwng, sydd yn broblem ynddo'i hun, oherwydd pan fyddwch yn derbyn lleoliad argyfwng rydych yn sylweddoli nad ydych fyth yn derbyn cofnodion yr achos...ni fydd asesiad effaith wedi cael ei wneud, ac fe ddylai un gael ei wneud.'

> 'Mae'n anodd iawn pan fo plant eraill yn cyrraedd o awdurdodau lleol eraill, mae'n anodd iawn iawn cael cronoleg gan wasanaethau plant, felly yn y diwedd, pan dderbyniais hynny, roeddwn yn gallu gweld bod awdurdodau lleol blaenorol wedi amau camfanteisio rhywiol, ond nid oedd llawer o ymchwilio i'r mater wedi cael ei wneud.

Bu i rai ymatebwyr hefyd awgrymu nad oedd gan awdurdodau oedd yn lleoli ddealltwriaeth glir o'r ardal yr oeddent yn lleoli plant ynddi ar brydiau.

> 'Mae llawer o'r awdurdodau lleol sy'n lleoli yn yr ardal hon...yn meddwl, "O Gogledd Cymru...mae yng nghanol cefn gwlad," ac rwyf wedi bod mewn cymaint o gyfarfodydd strategaeth ble rydych yn clywed yr agwedd honno gan awdurdodau lleol. Rwy'n meddwl, "Ydych chi'n sylweddoli bod Lerpwl ar ein stepen drws, mae gennym ail borthladd prysuraf y DU yng Nghaergybi, gyda chysylltiadau rheilffordd hwylus,"...felly mae yna naïfrwydd yn perthyn i'r awdurdodau lleol mawr yma.'

17 The Children Act 1989 guidance and regulations – Volume 2: care planning, placement and case reviews (2015).

18 Canllawiau a Rheoliadau Deddf Plant 1989 - Cyfrol 2: cynllunio gofal, lleoliadau ac adolygiad o achosion (2015)

Bu i'r ymatebwyr adrodd am anawsterau penodol sy'n gysylltiedig â lleoli plant a phobl ifanc o Loegr oedd wedi cael eu cam-drin drwy CSE:

> 'Yn amlwg, cydnabyddir y cysylltiad rhwng plant sy'n mynd ar goll a CSE, ac mae llawer o'r plant a leolir yma yn dod yma gyda hanes o CSE yn yr awdurdodau sy'n eu lleoli, a hynny'n aml yn Lloegr.'

Bu i weithwyr proffesiynol adrodd nad yw symud plentyn neu berson ifanc yn y modd yma yn gwneud llawer i sicrhau ei ddiogelwch:

> '"Gorau po bellaf" oedd y meddylfryd, ond er hynny mae'r person ifanc yn dal yn cael ei gam-drin, mae'r person ifanc yn dal i ddioddef camfanteisio, felly nid oes dim wedi newid o ganlyniad i'w leoli y tu allan i'r sir, ac rwy'n credu bod hwn yn un o'r pethau, mewn gwirionedd, sydd angen i ni fynd i'r afael ag ef ar lefel genedlaethol...ble bynnag yr ydych yn rhoi'r plentyn, mae angen i chi fynd i'r afael â gwreiddyn y broblem, ni allwch eu symud o un lle i'r llall gan obeithio y bydd hynny yn datrys y broblem.'

Yn hytrach na'u cadw'n ddiogel, gall lleoli pobl ifanc i ffwrdd oddi wrth rwydweithiau cyfarwydd arwain at risgiau ychwanegol:

> 'Yna bydd y person ifanc yn chwilio am berthnasoedd y tu allan i'r lleoliad ac mae hynny'n golygu eu bod yn orwyliadwrus o bobl yn y gymuned o'u cwmpas....oni bai fod yr elfen orwyliadwrus honno yn cael ei hadlewyrchu gan y staff a'r lleoliad, mae gennych broblem fawr, ac rwyf wedi gweld hynny'n digwydd lawer gwaith yn achos pobl ifanc sy'n cael eu lleoli yma o du allan i'r sir, maent yn cael eu denu tuag at y bobl na ddylent gael eu denu atynt.'

Mae'n anochel bod plant sy'n derbyn gofal preswyl yn dod i gysylltiad â phlant eraill sydd yr un mor agored i niwed ac sydd â'r un problemau.

> 'Mae gennych lawer o bobl gyda'i gilydd sy'n agored i niwed, ac mae pob un yn mynd ar goll gyda'i gilydd. Felly i roi enghraifft i chi, yr wythnos diwethaf, mae yna dri chartref sy'n gysylltiedig â'i gilydd mewn rhyw ffordd, mae un person wedi cyfarfod â'r gweddill ac am y tair noson ddiwethaf yn olynol mae pedwar person wedi bod ar goll.'

Bu i weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sy'n gweithio ym maes gofal preswyl a thu allan gyfeirio at faterion mewn perthynas â'r ffordd y rheolir lleoliadau preswyl:

> 'Un o'r pethau yr wyf yn ceisio mynd i'r afael â hwy mewn perthynas â chartrefi plant yw pan fo angen gwirioneddol i uwchgyfeirio, p'un a yw lleoli yn briodol neu beidio, mae angen iddynt ymgysylltu o ddifrif.'

> 'Rydym hefyd yn ystyried bod gennym ddyletswydd gofal am ein preswylwyr presennol, ac rwy'n meddwl ein bod yn hanesyddol efallai wedi methu yn hynny o beth, ac efallai wedi derbyn beth oedd yn cael ei roi i ni...weithiau mae'n llawer gwell cydnabod na allwch gynorthwyo person ifanc.'

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr ymchwil hwn yn awgrymu bod angen gwella'r dull o rannu gwybodaeth, cydlynu asesiadau'n well a gwell cynllunio lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i risg o ddioddef CSE sy'n cael eu lleoli y tu allan i'w hawdurdod lleol.

> 'Buaswn i'n dadlau, pan fo gennych rai o'r achosion CSE difrifol yma'n dod drwodd, bod angen paratoi pecyn cymorth cyflawn ar gyfer y person ifanc hwnnw, sef therapi, modelau arferion therapiwtig yn y cartrefi, strategaethau priodol...ar gyfer y gwaith o symud y person ifanc hwnnw yn ei flaen yn dilyn ei brofiadau, torri'r cysylltiadau a'r cylch, ac yna cynllunio'r llwybr y tu hwnt i hynny? Yn aml ni roddir ystyriaeth i ddim o hynny oherwydd mae'r ffocws uniongyrchol ar "mae gennym le", mae'r awdurdod lleol angen iddynt fod allan o'r sir oherwydd bod y risgiau yn uniongyrchol iddynt.'

Oni bai fod cynllunio lleoliadau a phecyn cymorth digonol yn cael eu sefydlu mewn perthynas â phobl ifanc a symudir o'u hawdurdodau eu hunain, ni ellir sicrhau canlyniadau da na diogelwch i'r bobl ifanc yma.

Bu i weithwyr proffesiynol nodi bod arferion yn gwella mewn rhai meysydd o ganlyniad i waith amlasiantaeth. Roedd cydlynwyr plant ar goll yn ymgysylltu'n gadarnhaol gyda darparwyr lleoliadau preswyl er mwyn cefnogi trefniadau diogelu gwell a ffyrdd gwell o rannu gwybodaeth mewn perthynas ag addasrwydd lleoliadau, er enghraifft. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod buddsoddi mewn cynnal cysylltiadau cadarnhaol rhwng asiantaethau yn allweddol er mwyn sicrhau newid. Mae angen trefniadau mwy cadarn ar gyfer cynnwys darparwyr lleoliadau preswyl mewn fforymau strategol amlasiantaeth sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o ddioddef neu o gael eu cam-drin drwy CSE a phlant ar goll.

**Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ac atgyfnerthu'r trefniadau sy'n gysylltiedig â lleoli plant o du allan i Ogledd Cymru gyda darparwyr preswyl yn yr ardal, a hynny ar frys.

**Argymhelliad 10:** Dylai darparwyr preswyl gyfrannu'n uniongyrchol tuag at drefniadau rhannu gwybodaeth amlasiantaeth, grwpiau a systemau diogelu.

## Canfyddiadau allweddol: gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr

### Ynglŷn â lleoliadau mewn gofal preswyl yng Ngogledd Cymru

- Yn aml, mae plant a phobl ifanc mewn lleoliadau preswyl sydd wedi dod o du allan i Ogledd Cymru, a mae nifer ohonynt wedi cael eu lleoli gan awdurdodau yn Lloegr, yn cyrraedd fel achos o leoli brys ac yn cael eu symud er mwyn sicrhau eu diogelwch yn syth.

- Mae yna bryder sylweddol ynglŷn â diffyg gwybodaeth, asesu a chynllunio lleoli er mwyn cefnogi diogelwch plant o du allan i Ogledd Cymru yn ddigonol mewn lleoliadau preswyl.
- Mae yna bryder am ddiffyg asesu risg mewn perthynas â gosod pobl ifanc, sydd eisoes yn destun perthynas amhriodol neu sy'n cael eu cam-drin, mewn lleoliadau preswyl gyda phobl ifanc eraill sy'n agored i niwed.
- Mae yna bryder y gallai symud plant a phobl ifanc i ardal arall er mwyn sicrhau eu diogelwch yn syth fod yn arwain at fwy o risg iddynt fynd ar goll a/neu gael eu cam-drin, heb fod yna becyn o ofal ac ymyrraeth therapiwtig wedi ei drefnu er mwyn leihau'r risg o ddioddef CSE a chefnogi adferiad.
- Mae yna dystiolaeth bod arferion yn gwella, o ganlyniad i waith amlasiantaeth, a gwell cyfathrebu ac ymgysylltu â darparwyr lleoliadau preswyl. Bu i'r ymatebwyr nodi bod rôl cydlynwyr plant ar goll yr heddlu mewn perthynas â chefnogi'r trefniadau hyn yn allweddol o ran cynnal cynnydd.

# Ynglŷn â gwaith amlasiantaeth

## Cyfarfodydd strategaeth CSE a chyfarfodydd strategaeth plant ar goll amlasiantaeth

Bu i un ymatebydd adrodd nad yw ffurflenni SERAF yn cael eu rhannu'n rheolaidd i bob gweithiwr proffesiynol sy'n mynychu cyfarfodydd strategaeth CSE o dan Brotocol Cymru Gyfan ac yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru.[19] Mae canlyniadau'r asesiad SERAF, o ran sgôr a chategori risg cysylltiedig, yn cael eu rhannu, yn hytrach na'r ffurflen SERAF ei hun wedi'i chwblhau.

Bu i rai gweithwyr proffesiynol gyfeirio at fuddion cyfarfodydd strategaeth CSE amlasiantaeth gan adrodd bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol ag amserlenni priodol, gyda phresenoldeb ac ymatebion da gan asiantaethau allweddol:

> 'Nid wyf erioed wedi gweld unrhyw fylchau mewn perthynas â bodloni'r gofynion hynny a phobl yn cyflawni eu swyddogaethau a'u dyletswyddau... Rwy'n credu bod hon yn broses o roi cymorth i bobl ifanc sy'n eithaf trylwyr a chydnerth. Rwy'n credu hefyd bod y gwaith yn eithaf manwl, rwy'n credu ei fod yn drylwyr, rwy'n credu ei fod yn benodol i'r materion allweddol sy'n codi o'r asesiad ei hun, oherwydd beth sydd angen i ni ganolbwyntio arno yw beth yw'r gwir risgiau sy'n wynebu'r plentyn hwn, ac mae angen i ni ganolbwyntio ar leihau'r risgiau hynny mewn amser rhesymol a byr hefyd...ac rwy'n credu bod yna dystiolaeth bod hynny'n digwydd.'

19 Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn (2008, adolygwyd yn 2013) Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant sydd mewn Perygl o gael eu Cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol: Protocol Cymru Gyfan.

Fodd bynnag, bu i ymatebwyr eraill fynegi pryderon mewn perthynas â'r angen am ymatebion mwy effeithlon i'r pryderon a glustnodwyd drwy gwblhau ffurflen SERAF, a'r angen i sicrhau bod y broses o gynnal cyfarfodydd strategaeth yn arwain at gynllun diogelwch effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc unigol.

> 'Nid wyf yn sicr beth sy'n digwydd ar ôl eu cynnal, weithiau ychydig iawn o effaith a welir yn dilyn cyfarfod SERAF [ac] rwy'n credu mai dyna fyddai un o fy mhrif gwestiynau, beth sy'n newid yn achos y person ifanc yma mewn gwirionedd?....pwy sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb?... Rwy'n credu bod angen mwy o eglurder ynglŷn â hynny.'

Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â chynrychiolaeth rhai asiantaethau mewn cyfarfodydd strategaeth CSE amlasiantaeth.

Cyfeiriwyd hefyd at y cyfarfodydd strategaeth plant ar goll fel ffordd effeithiol o drafod achosion unigol a chasglu gwybodaeth am bobl ifanc na fyddai fel arall efallai yn cael eu clustnodi fel pobl ifanc sydd angen ymateb amlasiantaeth, hyd yn oed os ydynt eisoes yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol:

> 'Rwy'n credu bod cyfarfodydd strategaeth plant ar goll yn hanfodol oherwydd... [Os] bydd cyfarfod strategaeth yn cael ei gynnal rhwng y gwasanaethau cyhoeddus a'r heddlu, yn gyffredinol bydd y mater penodol yn cael ei drafod.'

Ystyriwyd bod cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth yn hanfodol o ran datblygu ymatebion diogelu cydnerth, oherwydd pan rennir gwybodaeth gellir datblygu cynllun diogelwch ar y cyd gan asiantaethau.

Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynglŷn â chapasiti i fynychu cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth, gydag enghreifftiau yn cael eu cyflwyno o'r un cynrychiolwyr yn cael eu galw i fynychu cyfarfod strategaeth CSE a chyfarfod strategaeth plant ar goll:

> 'Rwyf yn bwcio cyfarfod plant ar goll a chyfarfod strategaeth SERAF, ac mae llwybrau'r ddau yn croesi ei gilydd...yn amlach na pheidio, yr un bobl fydd yn bresennol...mewn un ystyr mae'n galonogol oherwydd rydych yn gyfarwydd iawn â'r achos ac mae gennych nifer o bobl broffesiynol yn gweithio ar un lefel. Ar lefel arall mae'n eithaf rhwystredig bod yna ddwy broses yn cael eu cynnal sy'n ymwneud â'r un wybodaeth yn y bôn.'

Un o'r ffyrdd o ymdrin â'r galwadau ar staff i fynychu cyfarfodydd amlasiantaeth yw trwy ddatblygu paneli CSE, gan efelychu arferion o fannau eraill yn y DU.

> 'Roedd mwy a mwy o [gyfarfodydd strategaeth CSE] yn cael eu cynnal ac roedd yn mynd yn gynyddol anoddach mynychu'r cyfarfodydd hynny...felly... [Sefydlwyd] panel CSE i ymgymryd â chyfarfodydd strategaeth SERAF... mae'r [Awdurdod Lleol] wedi penderfynu y bydd yn ei gynnal unwaith y mis... Felly bydd y trafodaethau strategaeth yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau brys yn cael eu cymryd ac yna bydd yr achos hwnnw yn cael ei drosglwyddo i'r panel ac yn cael ei adolygu unwaith y mis.

Y bore yma rwyf wedi bod yn [awdurdod lleol] ac maent wedi penderfynu eu bod am wneud hyn bob pythefnos.'

**Argymhelliad 11:** Dylid rhannu gwersi a ddysgwyd o ddefnyddio cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth yn effeithiol mewn rhai ardaloedd er mwyn cael dull gweithredu cyson ar draws yr rhanbarth, fel bod cyfarfodydd yn arwain at ddulliau da o rannu gwybodaeth a chynlluniau diogelwch cydnerth.

**Argymhelliad 12:** Dylid casglu mwy o dystiolaeth o ddefnyddio paneli CSE i lywio trafodaethau strategol ynghylch a oes lle i ymagwedd o'r fath ar draws y rhanbarth.

## Grwpiau strategol plant ar goll/CSE amlasiantaeth

Sefydlwyd tri thasglu strategol plant ar goll/CSE amlasiantaeth ar gyfer Gwynedd a Môn, Conwy a Sir Ddinbych, a Wrecsam a Sir y Fflint.

Roedd yr ymatebwyr yn ystyried bod y fforymau hyn yn ffordd bwysig o gydweithio:

'Rwy'n credu ei fod yn grŵp effeithiol iawn...mae'n broses dda o rannu gwybodaeth, ond cynllunio yw hyn, felly mae pethau'n cael eu cyflawni mewn perthynas â darparu gwasanaethau i'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yn y sir.'

Bu i ymatebwyr roi enghreifftiau o sut mae rhannu gwybodaeth amlasiantaeth wedi cefnogi gweithredu yn erbyn tramgwyddwyr:

'Bu i ni greu 'bwrdd cysylltiadau' oedd yn cynnwys pwy oedd y person ifanc yn gysylltiedig â hwy, ble canfuwyd hwy ac i ble'r oeddent yn mynd, ac yna sylweddolwyd yn sydyn iawn, yng nghanol yr holl we yma, roedd yna nifer o bobl, nifer o gyfeiriadau, a amlygodd eu hunain yn gwbl glir...roeddem yn gallu tracio'r ffaith bod y merched ifanc yma yn mynd i'r cyfeiriadau hyn ac yn aros yno, a bu i hynny arwain at gyrch gan yr heddlu ac arestiwyd yr holl ddynion a chymerwyd eu cyfrifiaduron etc.'

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen i grwpiau ystyried materion ar lefel awdurdodau lleol unigol, tra bod eraill wedi cyfeirio at yr angen am ddull mwy cyson, gyda ffocws cyffredin a phroses strategol wedi'i sefydlu ar hyd a lled Gogledd Cymru.

Bu i'r ymatebwyr hefyd gyfeirio at y posibilrwydd o sicrhau tystiolaeth drwy brosesau grŵp amlasiantaeth i gyfrannu at ddatblygu ymatebion strategol, yn ogystal â gweithredol, i blant a phobl ifanc ar goll a'r rhai sy'n wynebu risg o ddioddef CSE:

'Hoffwn feddwl pan fo grŵp wedi hen sefydlu ei hun a bod gennym ychydig o ddata ystadegol, neu dystiolaeth, i ategu ein safbwyntiau, y gallwn herio prosesau neu arferion neu hyd yn oed ddeddfwriaeth os byddai angen...

hoffwn feddwl y byddai'r panel....nid yn unig yn gwella arferion gweithredol....a chanlyniadau pobl ifanc, ond hefyd yn rhoi ychydig o ddata a thystiolaeth i ni allu herio'n briodol.'

**Argymhelliad 13:** Dylid ystyried potensial dull cyson o weithredu'r tri grŵp strategol CSE/plant ar goll presennol.

## Canfyddiadau allweddol: gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr

**Ynglŷn â chyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth a chyfarfodydd strategaeth plant ar goll**

- Bu i rai gweithwyr proffesiynol gyfeirio at fuddion amlwg cyfarfodydd strategaeth CSE amlasiantaeth, gan adrodd am gynrychiolaeth dda o'r asiantaethau a chanlyniadau clir o ran cyfrifoldebau pob asiantaeth fel rhan o gynllun diogelwch.
- Bu i weithwyr proffesiynol eraill fynegi pryderon am oedi rhwng canfod risg a chynnal cyfarfod strategaeth CSE amlasiantaeth, presenoldeb gwael gan rai asiantaethau a diffyg cynlluniau diogelwch cadarn o ganlyniad i gyfarfodydd amlasiantaeth.
- Mae cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth wedi cynhyrchu gwybodaeth a ddefnyddiwyd i amharu ar dramgwyddwyr a sefydlu trefniadau diogelu ehangach.
- Nodwyd bod cyfarfodydd strategaeth plant ar goll yn ffordd effeithiol o rannu gwybodaeth a datblygu ymatebion diogelu ar y cyd.
- Mae galwadau amser cyfarfodydd strategaeth CSE amlasiantaeth a chyfarfodydd strategaeth plant ar goll yn sylweddol, ac maent yn cynyddu o ganlyniad i fwy o ymwybyddiaeth a'r gallu i adnabod plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg yn well. Mewn rhai ardaloedd, ymdrinnir â hyn drwy sefydlu paneli CSE sy'n cyfarfod yn rheolaidd, a bu i'r ymatebwyr ystyried bod hwn yn ymateb effeithiol.
- Cydnabyddir bod y tri grŵp strategol plant ar goll/CSE amlasiantaeth yn yr ardal yn effeithiol o ran cefnogi rhannu gwybodaeth a chynllunio strategol a gweithredol. Mae rhai gweithwyr proffesiynol yn credu y dylid sefydlu'r grwpiau hyn ar lefel awdurdodau unigol a bu i eraill gyfeirio at yr angen am fwy o gysondeb swyddogaeth ac agenda ar draws y tri grŵp sy'n bodoli.



# Cyfeiriadau

Grŵp Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008, adolygwyd yn  2013) *Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant sydd mewn Perygl o gael eu Cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol: Protocol Cymru Gyfan.*

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) Diogelu Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol: *Canllawiau Ategol i Ddiogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.*

*Diogelu Plant sydd efallai wedi cael eu Masnachu (2008).* Llywodraeth Cynulliad Cymru.

All Wales Child Protection Procedures Review Group (2011) *All Wales Practice Guidance for Safeguarding Children Who May Have Been Trafficked.*

Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2011) *Canllawiau Ymarfer ar gyfer Amddiffyn Plant a Allai Fod Wedi Cael eu Masnachu*

Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2011) Protocol Cymru Gyfan - Plant ar Goll: *Plant sy'n rhedeg i ffwrdd neu'n mynd ar goll o'r cartref neu ofal.*

Smeaton, E (2003) *Running from hate to what you think is love: The relationship between running away and child sexual exploitation*. Barnardo's, Barkingside.

Coles, J (2005) *Out of sight, out of mind: Child Sexual Exploitation*. Barnardo's Cymru, Caerdydd.

Clutton, S and Coles, J (2008) *Child Sexual Exploitation in Wales: 3 years on* (Policy and practice briefing). Barnardo's Cymru, Caerdydd.

Wade, J; Mitchell, F; Rees, G (2002) *Running away in Wales: patterns, needs and services.* Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Anson, E and Holmes, D (2014) *That Difficult Age: Developing a more effective response to risk in adolescence*. Research in Practice/ADCS, Dartington.

Beckett, H (2011) *'Not a world away': The sexual exploitation of children and young people in Northern Ireland.* Barnardo's, Northern Ireland.

*Cutting them free: How is the UK progressing in protecting its children from sexual exploitation?* (2011). Barnardo's, Barkingside.

*Adroddiad ymchwiliad Seneddol i effeithlonrwydd deddfwriaeth ar gyfer ymdrin â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a masnachu plant yn y DU* (Cadeiriwyd gan Sarah Champion AS) (2014). Barnardo's, Barkingside.

*Unigolion Coll: Data a Dadansoddiad 2011/12*. Biwro Unigolion Coll.

*Canllawiau a Rheoliadau Deddf Plant 1989 - Cyfrol 2: cynllunio gofal, lleoliadau ac adolygiad o achosion* (2015).

*Sexual Exploitation: Sex, Secrets and Lies – Your Guide* (2013). Ar gael yn www.barnardos.org.uk/cse_booklet_sex_secrets_and_lies_-_english_version.pdf



# Atodiad 1: Dyluniad a dulliau ymchwil

## Dyluniad yr astudiaeth

Tynnwyd sampl yr ymchwil o'r gymuned o bersonél strategol a gweithredol oedd yn rhan o'r gwasanaeth plant ar goll/CSE dan arweiniad yr heddlu a sefydlwyd i fynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll ar draws Gogledd Cymru.

Mae hyn yn cynnwys tri grŵp amlasiantaeth ar draws Gogledd Cymru, sy'n cynrychioli Gwynedd ac Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych, a Wrecsam a Sir y Fflint. Bu i'r ymchwilwyr rannu gwybodaeth am y prosiect drwy gyfrwng y tri grŵp.

Roedd hyn yn cynnwys mynychu pob grŵp a darparu deunydd dilynol ar ffurf gwybodaeth a ffurflenni caniatâd ar gyfer gweithwyr proffesiynol, a dolen i'r holiadur ar-lein. Rhoddwyd y ddolen i bob aelod o'r grwpiau, a gofynnwyd iddynt ei rhannu yn ehangach ar draws eu rhwydweithiau proffesiynol.

Cysylltwyd â gwasanaeth Seraf Barnardo's Cymru er mwyn cael mynediad i gyfranogwyr posibl sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth. Cysylltwyd hefyd â gwasanaethau eraill Barnardo's Cymru yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â'r Grŵp Cyfeillion, grŵp o bobl ifanc sydd â phrofiad o'r system gofal sy'n mentora a chefnogi pobl ifanc eraill sy'n derbyn gofal.

## Dulliau ymchwilio

Mae'r ymchwil yn mabwysiadu dull ansoddol yn sylfaenol. Fodd bynnag, caiff ei hysbysu hefyd gan ddata meintiol eilaidd o gronfa ddata SERAF a ddelir gan Barnardo's Cymru a data wedi'i olygu o system I-Trace heddlu Gogledd Cymru.

Bu i'r ymchwilwyr gynnal 22 o gyfweliadau rhannol strwythuredig gyda sampl o bersonél ac ymarferwyr strategol ar draws Gogledd Cymru. Hefyd, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda naw o weithwyr iechyd proffesiynol oedd yn gyfrifol am ddiogelu plant yn y chwe sir.

Roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar:

- swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn perthynas â phobl ifanc gyda phrofiad o/yn wynebu risg o ddioddef CSE a mynd ar goll
- canfyddiadau ynglŷn â maint y broblem
- canfyddiadau o'r risgiau a ffactorau gwarchodol CSE a phlant ar goll
- materion allweddol yn eu hardaloedd/siroedd
- prif amcanion y gwasanaeth ac i ba raddau yr ystyrir bod yr amcanion hynny yn cael eu cyflawni
- cydlynu gwasanaeth
- strategaethau cenedlaethol a lleol
- bylchau yn y gwasanaethau
- adnoddau
- argymhellion ar gyfer gwella arferion.

Cafodd y cyfweliadau eu hategu gan holiadur ar-lein, oedd yn ymdrin â'r un meysydd. Cwblhawyd cyfanswm o 41 o holiaduron gan weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr: bu i 39 nodi ym mha sector yr oeddynt yn gweithio ynddo, a gwrthododd dau wneud hynny.

## Nifer y cyfweliadau a holiaduron ar-lein a gwblhawyd

| Sector/sefydliad | Cyfweliadau a grwpiau ffocws | Holiadur ar-lein |
|---|---|---|
| Addysg | 3 | 8 |
| Cyfiawnder ieuenctid/ gwasanaeth | 4 | 7 |
| Gwasanaethau cymdeithasol | 3 (un o bob tasglu plant ar goll/CSE) | 6 |
| Yr Heddlu | 3 | 3 |
| Sefydliad preswyl | 5 | 3 |
| Sector gwirfoddol | 4 | 9 |
| Iechyd | Grwpiau ffocws (9 o gyfranogwyr) | 3 |
| **CYFANSWM** | **31** | **39** |

Cynhaliwyd tri chyfweliad rhannol strwythuredig gyda sampl o bobl ifanc sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth Seraf neu wasanaethau eraill yng Ngogledd Cymru, ac sydd wedi cael profiad o fod ar goll ac o fod yn agored i ddioddef CSE. Roedd y sampl yn cynnwys dwy ferch ac un bachgen rhwng 15 a 18 oed.

Roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar pam fod plant a phobl ifanc yn rhedeg i ffwrdd, materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc sy'n rhedeg i ffwrdd, a chanfyddiadau ynglŷn â beth sy'n digwydd pan fo plant a phobl ifanc yn dychwelyd adref.

## Materion moesol

Cafodd yr ymchwil ei gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Glyndŵr. Glynodd yr astudiaeth at arferion ymchwil moesol gofynnol (fel y'u nodir gan Gymdeithas Gymdeithasegol Prydain)  gan ddilyn egwyddorion caniatâd gwirfoddol gwybodus, anhysbysedd a chyfrinachedd. Rhoddwyd gwybodaeth i'r cyfranogwyr am yr astudiaeth a derbyniwyd caniatâd wedi'i lofnodi cyn cynnal y cyfweliadau. Gallai'r cyfranogwyr wrthod cael eu cyfweld ar unrhyw adeg heb unrhyw ganlyniadau negyddol.

Oherwydd nodweddion penodol y bobl ifanc oedd yn cael eu cyfweld mewn perthynas â bod yn agored i niwed, sefydlwyd nifer o fesurau er mwyn sicrhau eu diogelwch â'u llesiant emosiynol.

Bu i gwestiynau'r cyfweliadau rhannol strwythuredig, deunyddiau ychwanegol a'r holl wybodaeth a ffurflenni caniatâd gael eu cyflwyno i gael eu hystyried gan grŵp cynghori ar ymchwil oedd yn cynnwys pobl ifanc o Voices from Care, gyda chymorth Prifysgol Caerdydd. Cafodd adborth y grŵp hwn ei ymgorffori yn y deunyddiau ymchwil, gan sicrhau bod yna ffocws ar hawliau plant yn perthyn i'r ymchwil.

Cafodd yr holl ddata ymchwil ei storio a'i reoli yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

## Dadansoddi data

Cafodd pob recordiad sain ei drawsgrifio'n gyflawn. Dadansoddwyd y cyfweliadau a thrafodaethau'r grwpiau ffocws gan ddefnyddio dull cyson cymharol.

Darllenwyd y trawsgrifiadau gan aelodau o'r tîm ymchwil a datblygwyd fframwaith dadansoddol, yn seiliedig ar y themâu oedd yn ymddangos. Dadansoddwyd y data gan ddefnyddio NVivo 10.



# Atodiad 2: Canfyddiadau'r holiadur ar-lein

Bu i gyfanswm o 41 o bobl gwblhau'r holiadur ar-lein. O blith yr ymatebwyr, roedd 28 naill ai'n weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd neu'n rheolwyr llinell ar weithwyr proffesiynol rheng flaen.

## Proffil ymatebwyr

**Nifer yr ymatebion yn ôl sectorau:**

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau cymdeithasol | 10 |
| Timau Troseddwyr Ifanc | 6 |
| Gwasanaeth prawf | 3 |
| Yr heddlu | 3 |
| Iechyd | 3 |
| Addysg | 7 |
| Darparwyr gofal preswyl | 3 |
| Sector gwirfoddol | 5 |
| Anhysbys | 1 |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwybodol o Brotocol Cymru Gyfan ar blant ar goll a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant a phobl ifanc rhag camfanteisio rhywiol. Roedd traean wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r canllawiau ar gamfanteisio rhywiol.

| | |
|---|---|
| A ydych yn ymwybodol o Brotocol Cymru Gyfan ar blant ar goll? | 66% |
| A ydych wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio Protocol Cymru Gyfan ar blant ar goll? | 10% |
| A ydych yn ymwybodol o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant a phobl ifanc rhag dioddef camfanteisio rhywiol? | 80% |
| A ydych wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant a phobl ifanc rhag dioddef camfanteisio rhywiol? | 29% |

Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr, 73%, wedi cael profiad o weithio â phlentyn yr oeddent yn poeni fyddai'n rhedeg i ffwrdd a'i fod yn wynebu risg o ddioddef camfanteisio rhywiol, ac roedd 73% wedi gweithio gyda phlentyn neu berson ifanc yr oeddent yn credu ei fod wedi dioddef camfanteisio rhywiol pan oedd ar goll. Hefyd, roedd 54% wedi gweithio'n uniongyrchol â (neu wedi bod yn gyfrifol am wasanaethau sy'n delio'n uniongyrchol â) phlant neu bobl ifanc oedd wedi dod i gysylltiad â CSE pan oeddent ar goll, ac roedd 63% wedi gweithio gyda phlant a phobl ifanc oedd wedi bod ar goll am gyfnodau.

**Bu i ni ofyn beth ellid ei wneud ni atal pobl ifanc rhag mynd ar goll. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r prif awgrymiadau:**

| Camau a awgrymwyd | Nifer yr ymatebwyr a awgrymodd hynny |
|---|---|
| Gwell addysg i blant a phobl ifanc ynglŷn â pherthnasoedd iach, caniatâd, meithrin perthynas amhriodol a risgiau | 7 |
| Dulliau gwell o rannu gwybodaeth a chydweithio rhwng asiantaeth, yn lleol a gydag awdurdodau lleol eraill sy'n lleoli plant a phobl ifanc mewn gofal preswyl yng Ngogledd Cymru | 5 |
| Ffordd well o feithrin perthynas â phobl ifanc sy'n agored i niwed | 4 |
| Parhau i godi ymwybyddiaeth ac addysgu gweithwyr proffesiynol | 4 |
| Sicrhau bod mwy o raglenni lleihau risgiau ar gael | 2 |
| Ffyrdd gwell o gynllunio rheoli risgiau | 2 |
| Ymyrraeth gynharach yn achos pobl ifanc sy'n wynebu risg | 2 |

**Bu i ni ofyn ble oedd y mannau mwyaf hygyrch i leoli gwybodaeth a chefnogaeth i bobl ifanc pan fônt ar goll.**

Yr awgrymiadau allweddol a dderbyniwyd gan yr ymatebwyr oedd:

| Lleoliadau a awgrymwyd | Nifer yr ymatebwyr a awgrymodd y lleoliadau hyn |
|---|---|
| Ysgolion, canolfannau ieuenctid a gwasanaethau plant | 6 |
| Yr heddlu | 6 |
| Y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol | 5 |
| Cyfoedion a theulu cefnogol | 4 |
| Mannau cyhoeddus megis gwasanaethau hamdden, llyfrgelloedd a swyddfeydd post | 3 |
| Llinellau cymorth megis Childline | 2 |

**Bu i ni ofyn pa gamau oedd eisoes wedi eu cymryd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod o ble i gael cymorth pan fônt ar goll, ac a ellid gwella hynny neu beidio.**

O'r 30 o weithwyr proffesiynol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, nid oedd eu hanner yn gwybod pa wybodaeth oedd yn cael ei rhoi yn rheolaidd i blant a phobl ifanc, neu roeddent yn credu y gellid gwella'r sefyllfa bresennol. O'r gweddill, roedd tri ymatebydd, sy'n gweithio mewn sefydliadau gofal preswyl, yn gwybod yn bendant y gallai pobl ifanc gysylltu â'r cartref neu eu gweithiwr allweddol, ac roedd un gweithiwr iechyd wedi rhoi rhif ffôn symudol i bobl ifanc ei ffonio petai angen. Cyfeiriodd gweddill yr ymatebwyr at gymorth ar y rhyngrwyd a'r ffôn (Childline) a'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, cyfoedion a theulu, ond ni awgrymwyd bod manylion cysylltu yn cael eu rhoi i blant a phobl ifanc na bod y materion yn cael eu trafod â hwy mewn cyd-destun addysgol neu gyd-destun gwaith uniongyrchol.

**Bu i ni ofyn pa asiantaethau oedd yn gweithredu fel arfer pan fo plentyn neu berson ifanc oedd angen cymorth yn dychwelyd adref yn dilyn cyfnod ar goll.**

Yr asiantaethau allweddol a enwyd oedd:

| | |
|---|---|
| Yr Heddlu | 13 |
| Gwasanaethau cymdeithasol | 11 |
| Gwasanaeth Seraf Barnardo's | 10 |
| Ysgol/addysg | 4 |
| Gofalwyr/gofal preswyl/darparwr llety | 4 |
| Meddyg Teulu/nyrs | 3 |
| CAMHS | 2 |
| Timau Troseddwyr Ifanc | 2 |

**Bu i ni ofyn i'r ymatebwyr beth ellid ei wneud i wella canlyniadau i'r grŵp yma o blant a phobl ifanc.**

Roedd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau yn perthyn i ddau brif gategori: gweithgareddau atal, a gweithio da rhwng asiantaethau. Mae'r tabl canlynol yn cynnwys manylion am yr awgrymiadau allweddol a gynigiodd gweithwyr proffesiynol mewn perthynas â'r ddau faes yma.

**Atal**

- Hyfforddiant i staff ysgolion.
- Hyfforddiant ymlyniad i bob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad â'r unigolion yma.
- Addysg ar berthnasoedd iach a CSE mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid.
- Sicrhau bod gwybodaeth a rhaglenni addysg yn greadigol, ymgysylltiol a hygyrch i bawb.
- Mentora cyfoedion neu raglen cyfeillio ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu risg.
- Gwella cyfathrebu proffesiynol â phobl ifanc gan ddefnyddio pa ddulliau bynnag sy'n gweithio, yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol.
- Gwaith cynnar er mwyn canfod pam fod pobl ifanc wedi rhedeg i ffwrdd neu fynd ar goll.

**Cydweithio rhwng asiantaethau**

- Mwy o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant rhwng asiantaethau er mwyn datblygu gweithlu gwybodus a hyderus mewn perthynas â CSE.
- Sicrhau cyfathrebu da rhwng asiantaethau sy'n gweithio â phobl ifanc unigol.
- Uno asiantaethau sy'n gweithio ar CSE a gwasanaethau ymddygiad rhywiol niweidiol er mwyn cronni gwybodaeth a chefnogi dull mwy cyfunol o dargedu tramgwyddwyr.
- Gwella dulliau cyfathrebu er mwyn monitro patrymau ymddygiad.

Roedd awgrymiadau eraill, a rhai ohonynt yn debyg i weithgareddau sy'n cael eu cynnal mewn rhannau eraill o'r DU, yn cynnwys:

- Sefydlu allgymorth CAMHS ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â ffyrdd o fyw caotig sy'n wynebu risg o ddioddef CSE.
- Mwy o adnoddau ar gyfer gwaith therapiwtig er mwyn cynorthwyo'r broses adfer.
- Gweithgareddau ymchwil gyda phlant a phobl ifanc er mwyn canfod pa ffordd fyddai orau o ddarparu cymorth a chefnogaeth.
- Ystyried sefydlu llinell gymorth 'cadw'n ddiogel' annibynnol i blant a phobl ifanc ei defnyddio pan fyddant ar goll.
- Codi ymwybyddiaeth heddlu'r ardal ynglŷn â pham bod pobl ifanc yn mynd ar goll.

**'Gelli ymddiried ynof i...'**

Pobl ifanc yn mynd ar goll ac sy'n cael, neu mewn perygl o gael, eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol yng Ngogledd Cymru

© Barnardo's, 2016
Cedwir pob hawl

Ni ellir ailgynhyrchu na storio unrhyw ran o'r adroddiad hwn, yn cynnwys delweddau, ar system adalw, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffordd na dull, heb ganiatâd ymlaen llaw gan y cyhoeddwr.

Modelau a welir yn yr holl luniau.

Cynhyrchwyd yr adroddiad gan Dr Caroline Hughes a Menna Thomas.

**Credwch mewn plant
Believe in children**

Barnardo's
Cymru

**www.barnardos.org.uk**

Head Office, Tanners Lane,
Barkingside, Ilford,
Essex IG6 1QG

Ffôn: 020 8550 8822

Rhifau Cofrestru'r Elusen Barnardo's
216250 a SC037605 17312ab16